

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants

# Arfarniad Nodweddion a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

## Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn

# Contents


| | |
|---|---|
| Crynodeb | 1 |
| 1.0 Cyflwyniad | 2 |
| 2.0 Deall y Safle | 6 |
| 3.0 Datblygiad Hanesyddol | 8 |
| 4.0 Dadansoddi Gofodol | 13 |
| 5.0 Cymeriad ac Ymddangosiad | 29 |
| 6.0 Dadansoddiad | 44 |
| 7.0 Arwyddocâd | 45 |
| 8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli | 48 |
| 9.0 Cyfleoedd | 62 |
| Atodiadau | 65 |
| Atodiad I: Llyfryddiaeth | 66 |
| Atodiad II: Geirfa | 67 |
| Atodiad III: Mapiau | 69 |
| Atodiad IV: Adolygiad o'r | 75 |
| Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cysylltiedig | 76 |



Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Thîm Treftadaeth Adeiledig Cyngor Sir Gâr:

BHConsultations@carmarthenshire.gov.uk


*Cyfieithiwyd yr adroddiad hwn gan drydydd parti, ac nid oes gan Donald Insall Associates unrhyw gyfrifoldeb drosto.*


Mae'r adroddiad hwn a'r holl hawliau eiddo deallusol ynddo, ac yn codi ohono, yn eiddo i Donald Insall Associates neu'r cleient neu dan eu trwydded. Ni chaniateir atgynhyrchu'r adroddiad hwn ar ei hyd, neu unrhyw ran ohono, nac unrhyw ddyluniad, cynllun, dogfen arall nac unrhyw wybodaeth a geir ynddo, ar unrhyw ffurf heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Donald Insall Associates neu'r cleient fel sy'n briodol. Ni chaniateir cyhoeddi nac atgynhyrchu'r holl ddeunyddiau y mae'r hawliau eiddo deallusol wedi'u trwyddedu i DIA neu'r cleient ac unrhyw hawliau o'r fath sydd gan drydydd parti, ar unrhyw ffurf. Dylid gwneud unrhyw gais am ganiatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath i gyhoeddi neu atgynhyrchu yn uniongyrchol i'r sawl sy'n meddu ar yr hawliau eiddo deallusol ynddo.


UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

CANOLFAN TYWI
TYWI CENTRE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Crynodeb

Dynodwyd Castellnewydd Emlyn yn Ardal Gadwraeth ym 1971. Mae'n briodol ac angenrheidiol bellach gwneud cofnod o arwyddocâd yr ardal hon, ystyried a yw'r ffiniau cyfredol yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain rheolaeth, cadwraeth a gwelliant yr ardal yn y dyfodol. Dyna yw nod y ddogfen hon.

Mae gan yr ardal hanes cyfoethog, yn dyddio'n ôl i ddatblygiad Canoloesol y dref hyd at ei datblygiad yn yr 20fed Ganrif. Mae'r esblygiad hanesyddol wedi gadael gwaddol o ddiddordeb a chymeriad pensaernïol y dymunir eu cadw neu wella. Ystyrir y canlynol yn brif nodweddion o arwyddocâd yr ardal:

1. Safle Castell Castellnewydd Emlyn, heneb gofrestredig ac un o lond llaw o gestyll carreg wedi'u hadeiladu gan Gymry sydd i'w cael yn ne Cymru
2. Patrwm stryd hanesyddol sy'n dal i oroesi i raddau helaeth, gan gynnwys y farchnad hanesyddol y mae ei holion yn dal i fod yn amlwg drwy'r patrwm stryd a neuadd y dref a thŵr cloc yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif
3. Amrywiaeth o ddefnyddiau, mathau, deunyddiau, a manylion i'r adeiladau sy'n eich annog chi i archwilio'r amgylchoedd
4. Golygfeydd a mathau o lwybrau gwahanol sy'n eich caniatáu chi i archwilio rhannau gwahanol o'r AG a chael profiadau amrywiol
5. Canolfan amaethyddol hanesyddol sy'n parhau drwy'r farchnad wartheg a gwaddol hanesyddol y tafarndai a gafodd eu hadeiladu i weini'r porthmyn a'r gweithwyr

Cesglir y dylai statws ardal gadwraeth yr ardal barhau, ac nad oes angen newid y ffin. Serch hynny, dylid creu dwy ardal gadwraeth i adlewyrchu'r ddwy ardal unigryw oddi mewn yr AG.



3



1



4



2



5

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Diben a Chwmpas yr Adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Donald Insall Associates (Insall) i ymateb i friff gan Gyngor Sir Gâr (CSC) i baratoi Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn. Ariannwyd yr adroddiad hwn drwy grant gan y Gronfa Adfywio Cymunedol. Nod y prosiect hwn yw astudio ac asesu'r Ardal Gadwraeth gyfredol i ddeall a mynegi'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig, ystyried a yw'r ffiniau cyfredol yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain rheolaeth, cadwraeth a datblygiad yr ardal yn y dyfodol. Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan berchnogion

adeiladau sy'n dymuno gwneud gwaith ar eu heiddo, gan benseiri a datblygwyr wrth ystyried newid i adeiladau sydd eisoes yn bodoli a chan staff yr Awdurdod Lleol i'w cynorthwyo nhw i wneud penderfyniadau.

Mae 4 rhan i'r adroddiad hwn:

1. Deall yr ardal: Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r ardal, ei datblygiad hanesyddol a'i harwyddocâd.
2. Gwerthusiad o'r safle: Mae hyn yn nodi prif elfennau'r Ardal Gadwraeth (AG) a sut maent yn cyfrannu at ei chymeriad, ei hymddangosiad, a'i harwyddocâd.
3. Materion, bygythiadau a rheolaeth: Mae'r adroddiad yn parhau gydag arsylwadau ynghylch materion a bygythiadau penodol ac yn nodi cyfres o egwyddorion i helpu i arwain datblygiad y dyfodol gan sicrhau bod diddordeb arbennig y safle yn cael ei gadw a'i wella pryd bynnag mae hynny'n bosibl.
4. Cyfleoedd: Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar gyfleoedd sydd wedi'u hadnabod i fod yn sail i'r adran derfynol.

## 1.2 Diffinio Ardaloedd Cadwraeth

'Ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad' yw ardaloedd cadwraeth Mae ardaloedd cadwraeth yn rhan unigryw o'r amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu dynodi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol am eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gallai diddordeb pensaernïol gynnwys enghraifft dda o fath penodol o anheddiad, cynllunio tref, neu grŵp o adeiladau o arddull ranbarthol neu leol unigryw neu o ansawdd pensaernïol dda. Mae diddordeb hanesyddol yn ymwneud ag esblygiad hanesyddol lleoliad, cyfnod penodol neu ddigwyddiadau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol, megis tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archaeolegol, pensaernïol neu dopograffeg o'r gwreiddiau a'r prif gyfnodau datblygu sydd wedi goroesi'n arbennig o dda. Mynegir cymeriad drwy bethau fel arddull adeiladu, deunyddiau, strwythur strydoedd, defnydd tir a chyfnodau datblygu.

O fewn y system gynllunio, caiff ceisiadau i newid AG eu hasesu i ddeall yr effaith y gall y datblygiad hwnnw ei chael ar arwyddocâd.

Arwyddocâd yw un o egwyddorion arweiniol Polisi Cynllunio Cymru 2021 (PPW). Gall hwn fod yn arwyddocâd archaeolegol, pensaernïol, artistig, neu hanesyddol a gall ddeillio o bresenoldeb ffisegol ac o'i osodiad hefyd.

Weithiau, rhoddir rheolyddion rheoliadol ychwanegol ar waith o fewn ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys dymchwel, gwaith i goed a hysbysebion. Mae gofyn i bob penderfyniad cynllunio gael ei asesu yn erbyn arwyddocâd yr ardal i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a'i gwella pryd bynnag mae hynny'n bosibl.

Mae'r ddogfen hon yn nodi arwyddocâd a chymeriad yr ardal i gynorthwyo'r rheini sy'n gwneud cais am newid neu sy'n gwneud penderfyniadau ddeall achosion lle all cynigion effeithio ar hyn a phennu a yw hwn yn newid cadarnhaol neu negyddol.

## 1.3 Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cysylltiedig

Mae'r prif ddarpariaethau ar gyfer dynodi a rheoli ardal gadwraeth wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, a pholisi a chanllawiau cynllunio'r llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys:

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 Chwefror 2021

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017
Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru, Medi 2021

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021

Mae crynodeb a dolenni i'r dogfennau hyn i'w cael mewn atodiad i'r ddogfen hon.

### 1.4 Adfywio Treftadaeth

Mae ein treftadaeth adeiledig yn adnodd enfawr sy'n helpu i siapio sut mae ein trefi a'n pentrefi yn edrych a sut deimlad a geir ganddynt.

Rhoi bywyd newydd i'r asedau hyn yw un o brif agweddau adfywio economaidd a chymdeithasol ein trefi. Mae ymgorffori treftadaeth ym mhrosiectau adfywio yn chwarae rôl gynyddol bwysig a llwyddiannus yn nifer o gynlluniau adfywio mawr, gan greu cyfleoedd ar gyfer cadwraeth a datblygu i weithio gyda'i gilydd i drawsnewid yr amgylchedd adeiledig.

Hyd yn oed mewn cyflwr gwael neu wag mae ein treftadaeth adeiledig yn parhau i fod yn 'ased', gyda'r gallu i gyfoethogi ein profiad o'n hamgylchoedd drwy ddeunydd eu cysylltiadau hanesyddol neu gymunedol. Mae asedau treftadaeth hefyd yn gydran allweddol o ddatblygiad cynaliadwy. Mae disodli adeiladau yn gofyn buddsoddiad sylweddol o ynni ac mae ailddefnyddio adeiladau yn diogelu'r carbon corfforedig sy'n cael ei allyrru wrth gynhyrchu'r deunyddiau gofynnol. Gellir gwneud gwelliannau arbed ynni i adeiladau hŷn, yn aml am gost isel, gan greu adeiladau cyfforddus ac effeithlon o ran ynni.

Mae achos economaidd cryf dros adfywio adeiladau hynafol. Nid yn unig y mae'r buddion hyn yn ymwneud â'r adeilad unigol, ond hefyd yr ardal ehangach a'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys:

- gwella'r dref a'r lleoedd sydd o'u cwmpas
- gwelliannau mewn diogelwch personol a lleihau trosedd
- mwy o gyfraniad gan y gymuned ac ymdeimlad o berchnogaeth sydd, yn ei dro, yn helpu i gynnal lleoedd mewn cyflwr da ac annog rhagor o fuddsoddi
- mwy o gyflogaeth
- gwrthdroi gostyngiad mewn poblogaeth
- gwella'r ddelwedd gan annog mwy o ymwelwyr
- magu hyder a chreu ymdeimlad o falchder
- buddsoddiad anuniongyrchol i'r ardal ehangach
- defnydd cynaliadwy o adnoddau drwy ailddefnyddio deunyddiau'r gorffennol ac ynni corfforedig

Weithiau, gellir ystyried asedau treftadaeth yn rhwystr i adfywio, oherwydd yr ystyriaeth eu bod yn rhy ddrud, yn annichonadwy, nad ydynt yn effeithlon iawn ac oherwydd nad ydynt yn gallu bodloni dymuniadau preswylwyr neu ddatblygwyr. Wedi dweud hynny, mae treftadaeth yn rhywbeth sy'n cael ei werthfawrogi gan bobl a chymunedau ac yn ffurfio rhan o hunaniaeth lleoliad, neu ei hunaniaeth i gyd yn rhai achosion. Mae adeiladau a lleoliadau hanesyddol yn cyfoethogi ein trefi, ein profiad, yn creu ymdeimlad o le a chyrchfan. Y peth pwysig yw dod o hyd i'r defnydd ymarferol gorau ar gyfer yr ased, y gellir ei gyflawni heb effeithio ar ei werth cadwraeth ac mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn economaidd. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod cost os na wneir ymdrech i ymgorffori yn llwyddiannus adeiladau treftadaeth yng nghynlluniau adfywio. Buan iawn y gall ased treftadaeth ddirywio os nad yw'n derbyn digon o ofal ac os nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw, ac felly bydd yr ansawdd amgylcheddol yn is, ac yn gwrthwneud y mentrau sy'n cael eu gwneud. Mae Heritage Works yn gyhoeddiad ar y cyd rhwng Historic England, RICS a'r British Property Foundation er mwyn arwain perchnogion a datblygwyr drwy'r broses o adfywio asedau treftadaeth. Gweler dolen mewn atodiad i'r ddogfen hon. Mae ymchwil cyfwerth yn cael ei wneud gan Cadw a Llywodraeth Cymru i gyfrannu at y drafodaeth hon.

**1.5 Datganiad Dull**

Ymgymerwyd â'r canlynol drwy baratoi'r adroddiad hwn:

*1. Adolygiad o wybodaeth gyfredol*


Cyfeiriwyd at nifer o ffynonellau i ddeall diddordeb hanesyddol a phensaernïol yr ardal, gan gynnwys dogfennau wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi, cofnodion cynllunio, canllawiau a deddfwriaethau wedi'u mabwysiadu a rhai newydd ac adnoddau ar-lein.

*2. Casglu Gwybodaeth*

Ymwelodd Insalls â'r safle fis Chwefror a Mawrth 2022 i ymgymryd â dadansoddiad nodweddion a gofodol. Cafodd adeiladau a safleoedd eu gweld o fannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac ni chawsant eu hymchwilio'n fewnol.

*3. Ymgysylltu â'r Gymuned*

Nod allweddol y prosiect yw deall a mynegi'n glir yr hyn mae'r gymuned leol yn ei werthfawrogi am yr ardal. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid cymunedol a staff perthnasol yn y Cyngor wrth ddrafftio'r ddogfen hon ac mae hyn wedi helpu i ffurfio ei chasgliadau. Dylid ystyried y ddogfen hon yn fan cychwyn ar gyfer trafod a bydd yn cael ei rhannu ymhellach gyda rhanddeiliaid cymunedol perthnasol. Rydym yn croesawu adborth i ddeall safbwyntiau lleol o werth nodweddion trefluniau, eu problemau a'u cyfleoedd.




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn

### 2.1 Summary of Significance and Character

The key characteristics of the area and items of significance are summarised below (a more expansive list can be found in section 7).

- Yn cynnwys castell Castellnewydd Emlyn, sy'n safle ag arwyddocâd cenedlaethol a lleol yn natblygiad y safle ac yn un o enghreifftiau prin o gastell carreg wedi'i adeiladu gan Gymry
- Yn cynnwys dwy heneb gofrestredig sy'n ymwneud â'r castell a'r bont
- Y patrwm stryd hanesyddol a ddatblygodd o'r anheddiad Canoloesol o gwmpas y castell ac a ymestynnodd yn ystod y 18fed a'r 19eg Ganrif
- Marchnad hynafol sy'n dal i fod yn amlwg fel canolbwynt yn y dref
- Yn cynrychioli'r cyfnod o dwf a gafwyd yn ystod y 18fed a'r 19eg Ganrif yn Sir Gaerfyrddin
- Nifer dda o enghreifftiau o adeiladau preswyl, masnachol a chyhoeddus yn dyddio'n ôl i'r 18fed a'r 19eg Ganrif, sy'n ffurfio strydlun prysur
- Strwythurau rhestredig amlwg, gan gynnwys y Bunch of Grapes Inn ac Eglwys y Drindod Sanctaidd
- Rhai blaen siopau o ansawdd dda yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif
- Adeiladau cornel amlwg
- Mae nifer o breswylwyr a digwyddiadau nodedig wedi byw a digwydd yn yr AG
- Potensial archaeolegol, gan gynnwys tystiolaeth o gynllunio tref ac adeiladu castell, yn ogystal â'r ymchwil Ôl-ganoloesol i ddatblygiad tref
- Cysylltiad â'r porthmyn a'r diwydiant amaethyddol sy'n dal i fodoli yn y dref
- Golygfeydd pellgyrhaeddol clir yn cyferbynnu yn erbyn cipolygfeydd, gan roi amrywiaeth yn y modd yr ydych yn symud drwy'r ardal ac yn ei gweld



Eglwys y Drindod Sanctaidd



Golygfeydd tuag allan ar yr afon Tywi

**2.2 Lleoliad**

Mae AG Castellnewydd Emlyn yn ffinio ar ddwy ochr â'r afon Teifi ac wedi'i sefydlu'n bennaf gan strwythur y ffordd Ganoloesol i'r gogledd ac estyniad y dref yn ystod y 18fed – 20fed Ganrif i'r de, dwyrain a gorllewin. Mae'r dref wedi'i lleoli ar yr A484, 10 milltir i'r dwyrain o Geredigion a 17 milltir o Gaerfyrddin, tref sirol Sir Gaerfyrddin. Mae'r dref rhwng ffin Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, gyda thref hanesyddol Adpar i'r gogledd ar yr ochr arall i bont Castellnewydd Emlyn.

**2.3 Topograffi a lleoliad**

Mae'r dref ar lannau'r afon Teifi, yr afon hiraf sydd wedi'i lleoli yn llwyr yng Nghymru, yn llifo o'i tharddiad yn Nhregaron ym mynyddoedd Cambria i'w haber yng Ngheredigion. Mae'r castell wedi'i osod ar benrhyn cul wedi'i ffurfio gan gylch o fewn yr afon ar bwynt pontio'r Teifi. Mae dyffryn Teifi yn darparu llwybr o Geredigion a'r arfordir i'r gorllewin ac i ganolbarth Cymru i'r dwyrain. Yn dilyn y dyffryn, mae canol y dref ei hun yn weddol wastad gyda'r tir yn codi'n serth i'r de a'r gogledd. Mae'r tir yn gostwng i'r de o'r castell ac i'r gorllewin o Heol y Bont tuag at yr afon gan ddarparu golygfeydd panoramig tuag at y dref a thua'r afon a'r dyffryn.



## 3.0 Datblygiad Hanesyddol

*Crynodeb o Ddatblygiad Hanesyddol Castellnewydd Emlyn*

**13eg Ganrif**

Daw enw Castellnewydd Emlyn o gantref neu ardal Emlyn a oedd yn un o saith ardal yn Nyfed, ardal hynafol yng Nghymru a ddaeth yn rhan o'r Deheubarth (yr enw rhanbarthol ar deyrnas de Cymru) o gwmpas 950. Gwnaethpwyd yr ardal yn rhan o eiddo'r Normaniaid yn y 12fed Ganrif gydag Adpar yn dref ar wahân sydd ar ochr Ceredigion yr afon Teifi. Mae lleoliad y dref yn strategol, gydag ehangder yr afon yn amddiffyniad naturiol gyda man croesi hygyrch. Yn sicr, sefydlwyd pont dros yr afon erbyn 1257, gan gysylltu Castellnewydd Emlyn gydag Adpar.

Ar ôl rhannu ardal Emlyn i naill ochr yr afon Cych, sydd rhwng Castellnewydd Emlyn a Boncath, sefydlodd Maredudd ap Rhys y castell oddeutu 1240. Mae'n debyg bod y cadarnle gwreiddiol wedi'i wneud o bren a phridd, ac wedi'i ail-adeiladu rhywbryd cyn 1287 gyda charreg, gan ei wneud yn un o'r cestyll carreg wedi'u hadeiladu gan Gymry prin iawn a geir yng ngorllewin Cymru. Dyma yw gwreiddiau'r 'castell newydd', ac mae'n ei wahaniaethu â'r 'hen gastell' yng Nghilgerran. Gan mai prif breswylfa Maredudd oedd Castell Dryslwyn, mae'n debyg bod y castell wedi'i adeiladu fel canolfan weinyddol yn hytrach nag un amddiffynnol. Crybwyllwyd y castell am y tro cyntaf ym Mrut y Tywysogion ym 1215, pan gafodd ei oresgyn gan Llywelyn Fawr. Ac eto, yn nogfennau ym 1257 pan gymeradwyodd Brenin Harri'r III gytundeb Maredudd gyda Marshall i rannu ardal Emlyn.

Daeth mab Maredudd, Rhys ap Maredudd, i feddiant y castell ym 1271 ac ef oedd perchennog y castell hyd at 1287 pan newidiodd ddwylo deirgwaith yn ystod ei wrthryfel llwyddiannus yn erbyn Coron Lloegr rhwng 1287 a 1289. Yn y pendraw, daeth dan warchae Robert Tiptoft, a'i gipio ganddo. Dihangodd Rhys ond cafodd ei gipio unwaith eto a'i ladd ym 1291 a chymerwyd ei ystad gan y Goron.

**14eg Ganrif**

Dan reolaeth y Goron, aeth Edward I, II a III ati i ymestyn a moderneiddio'r castell, gan gynnwys adeiladu neuadd fawr a phorthdy â dau dŵr iddo. Yn ystod y cyfnod hwn y sefydlwyd anheddiad ac ym 1303 cafodd yr ardal ei sefydlu fel bwrdeistref, gyda marchnad wythnosol a dwy ffair flynyddol. Credir bod 26 o diroedd bwrdais wedi'u creu ac erbyn 1316 cynyddodd hyn i 62 o diroedd bwrdais a 24 o denantiaid eraill.

Roedd y dref ganoloesol yn cynnwys tair stryd, Heol y Castell, Heol y Bont a Heol Sycamorwydden a oedd yn dod ynghyd ar faes marchnad siâp triongl lle mae'r cloc wedi'i leoli erbyn hyn.

Roedd y dref ym mhlwyf Cenarth ac nid oedd ganddi ei heglwys ei hun, ond roedd Capel Anwes wedi'i gysegru i'r Drindod Sanctaidd y tu allan i'r castell sy'n dal i fod yn weladwy ar fapiau degwm o ganol y 19eg Ganrif.

Ymddengys bod dechrau'r 14eg Ganrif wedi bod yn uchafbwynt i'r dref, ond effeithiwyd ar y twf gan gystadleuaeth gan Adpar, y gostyngiad sydyn yn y boblogaeth ar draws Ewrop a'r Pla Du. O'r herwydd hynny, erbyn dechrau'r 15fed Ganrif, hanerodd y nifer o diroedd bwrdais a oedd mewn defnydd i 30.

**15fed – 16eg Ganrif**

Ym 1400, dechreuodd gwrthryfel Owain Glyndŵr, a chafodd ei enwi yn Dywysog Cymru. Ym 1403, daeth lluoedd Cymru i Gastellnewydd Emlyn a chipiwyd y castell a'r dref. Pythefnos yn ddiweddarach, cafodd yr ardal ei chipio'n ôl, ond mae'n debyg bod y difrod yn sylweddol gan y disgrifiwyd y castell yn adfail erbyn 1428.

Enillodd Syr Rhys ap Thomas y castell a'i atgyweirio oddeutu'r flwyddyn 1500, gan ei drawsnewid i breswylfa.

Nid oes llawer o wybodaeth rhwng yr adeg hon a'r 17eg Ganrif ac ymddengys bod y dref wedi byw'n weddol ddisylw.

**17eg Ganrif**

Fel nifer o gestyll yn ne Cymru, newidiodd ddwylo sawl gwaith cyn y rhyfel cartref. Yn ystod honno, y senedd oedd yn ei feddiant nes i Syr Charles Gerard ei gipio ym 1644. Daeth dan warchae'r Uwchfrigadydd Rowland Laugharne

ar ran y Senedd ym 1645 ond cafodd ei orchfygu mewn brwydr o dan waliau'r castell yn y pendraw. Wedi ildiad y Brenhinwyr, ffrwydrwyd y castell gan bowdwr gwyn er mwyn sicrhau nad oedd modd ei amddiffyn mwyach a chafodd ei adael yn ddisylw o'r cyfnod hwn.


**18fed Ganrif**

Erbyn diwedd y 17eg Ganrif, dechreuodd y dref adfer wedi effeithiau economaidd y Rhyfel Cartref yn bennaf oherwydd y chwyldro diwydiannol a oedd yn gyfrifol am dyfu nifer o'r trefi ar draws de Cymru. Cafodd y dref fudd o'r afon gyflym, a dyma oedd tarddiad

rhan helaeth o'i grym diwydiannol, a oedd yn caniatáu i'r dref ddod yn fwy amlwg yn y diwydiant gwlân lleol. Bu mwy o alw hefyd am gynnyrch amaethyddol, a oedd o fantais. Oherwydd man croesi'r afon a'r farchnad, gwnaethpwyd Castellnewydd Emlyn yn dref bwysig i borthmyn am nifer o flynyddoedd ac yn sgil hynny gadawyd gwaddol o Dafarndai a gafodd eu hadeiladu i gefnogi eu masnach. Fel man casglu moch a gwartheg, roedd yn bwynt strategol i borthmyn a oedd yn cludo anifeiliaid o orllewin Cymru i farchnadoedd yn Lloegr. Yn ystod ffeiriau, byddai'r strydoedd yn fwrlwm o wartheg a cheffylau, ac mae hynny'n parhau hyd heddiw.

Cafodd y bont gynharach ei hailadeiladu yn y 18fed Ganrif gyda cherrig er mwyn cefnogi'r fasnach gynyddol hon.

Adeiladwyd Capel Bach ym 1786 i ddisodli'r Capel Anwes cynharach. Gwasanaethodd y dref cyn yr adeiladwyd y Drindod Sanctaidd ym 1842. Yna, daeth yn ysgol eglwysig nes yr adeiladwyd ysgol ym 1863. Wedyn, daeth yn stordy cyn cael ei ddymchwel. Darganfuwyd y sylfeini pan ymestynnwyd y maes parcio ym 1985 a chawsant eu cofnodi mewn ysgythriad gan Henry Gastineau oddeutu 1830.




Troslun o Ffin Hanesyddol Castellnewydd Emlyn 1889 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)

## 19eg Ganrif


Parhaodd twf y dref yn y 19eg Ganrif, gyda chymorth gan yr ymestynaid i'r rheilffordd i'r dref ym 1895 ar gyfer gwasanaethau cludo ac i deithwyr, gan gysylltu â phrif lein Aberystwyth ym Mhencader.

Ar fap 1811 Thomas Budgen, dangosir adeiladau ar hyd dwy ochr Heol y Bont, Heol Sycamorwydden a phen gorllewinol Heol y Castell, yn ogystal ag o gwmpas ffordd dyrpeg i'r de gyda thai ar Stryd y Porth, Teras Penlan, a Heol Ebenezer gyda rhai adeiladau ar wahân ar Chwarel Ffinant. Ar yr adeg hon, dim ond ar ochrau strydoedd oedd adeiladau gyda degymau o feintiau gwahanol rhwng yr adeiladau a'r afon, a thir agored i'r de a'r gorllewin.

Adeiladwyd y gored wreiddiol i ogledd y castell o gerrig ond cafodd ei hailadeiladu ym 1885 gan Iarll Cawdor ar ochr Caerfyrddin ac eto ym 1886 gan Fitzwilliams o Gilgwyn ar ochr Sir Geredigion. Pentreflys ar y ddwy ochr, yn arwain at felin wlân yn Adpar a melin ŷd ar ochr Sir Gaerfyrddin a gafodd ei throsi yn Bwerdy ym 1909 gan Roger Parkington i gyflenwi'r dref ac Adpar â thrydan. Ychwanegwyd ysgol bysgod i fyny'r afon er mwyn bodloni'r boneddigion.

Ffurfiwyd Undeb Castellnewydd Emlyn ym 1837 ac adeiladwyd y wyrcws ym 1838-39 yn Aberarad, milltir o'r dref. Caeodd ei ddrysau ym 1915 a chafodd ei ddefnyddio'n rhannol fel ffatri gaws, gan ddod yn ffatri Cow and Gate ym 1932.

Ar fapiau OS o ddiwedd y 19eg Ganrif, dangosir tref debyg o ran maint i honno ar ddechrau'r 19eg Ganrif, ond gyda datblygiad ychwanegol ar hyd Heol Ebenezer i'r dwyrain. Mae addasiadau nodedig yn rhai o'r prif strydoedd, gyda Heol y Castell bellach yn ymestyn hyd at y Castell gyda'r felin lifio a'r felin ŷd ar lannau'r afon i'r gogledd. Mae Lôn yr Eglwys yn arwain at Neuadd y Dref newydd ei sefydlu ac Eglwys y Drindod Sanctaidd a gafodd eu hadeiladu ym 1892 a 1842 yn y drefn honno. Agorwyd yr ysgol ramadeg ym 1867, ac oherwydd ei henw da




Troslun o Ffin Hanesyddol Castellnewydd Emlyn 1907 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)

denwyd pobl o bell i ddod i fyw yn y dref. Ym 1904, daeth Evan Roberts a Sydney Evans o Gasllwchwr i'r dref fel myfyrwyr a buont yn allweddol yn hyrwyddo'r Diwygiad Methodistaidd 1904-5 yng Nghymru. Yn adnabyddus fel Cae'r Sioe, sefydlwyd y farchnad wartheg y tu ôl i Heol Sycamorwydden yn yr un lleoliad ag y mae hyd heddiw, gyda Neuadd Cawdor yn cael ei godi o'i flaen ym 1892. Dechreuodd y neuadd ei hun fel neuadd farchnad, mae'n debyg i gefnogi'r farchnad y tu ôl iddo. Cofnodwyd 12 tŷ tafarn yn y dref ym 1888.

**20fed Ganrif**


Ni welwyd unrhyw newidiadau mawr hyd nes diwedd ail hanner yr 20fed Ganrif, pan sefydlwyd Stryd yr Hen Graig a Heol Newydd a thyfodd Heol Ebenezer i'r dwyrain gan gysylltu â Heol yr Orsaf, gyda sawl datblygiad y tu ôl i'r prif ffyrdd. Dymchwelwyd rhan o Heol Dŵr i gynorthwyo llif traffig a lledaenwyd pen dwyreiniol Heol yr Eglwys i greu maes parcio ar gyfer y castell.

Rhoddwyd y maes chwarae am ddim i'r dref wedi marwolaeth Brenin George V ym 1936 ac roedd ei gostau cynnal a chadw yn cael eu hariannu drwy gyfraniadau elusennol ar ôl iddo newid dwylo o'r cyngor i gymdeithas annibynnol.

Oherwydd toriadau Beeching, caeodd lein y rheilffordd i deithwyr ym 1952, a pharhaodd gwasanaethau cludo tan 1973 yn mewnforio glo, olew, a phorthiant gwartheg, ac yn allforio cynnyrch amaethyddol, gan gynnwys da byw. Dymchwelwyd yr orsaf yn y pendraw, a ffurfiwyd ardal ddiwydiannol yn ei lle.

Caiff y farchnad wartheg ei chynnal bob wythnos a chofnodwyd 17 o dafarndai ym 1915 ar gyfer poblogaeth o 922.

Mae'r hyn sy'n amlwg heddiw o ganlyniad i adeiladau'r 18fed, 19eg, ac 20fed Ganrif, ond mae'r tiroedd bwrdais hir a chul ar Heol yr Eglwys, Heol y Bont a Heol Sycamorwydden yn dal i fod yn adnabyddadwy.




Troslun o Ffin Hanesyddol Castellnewydd Emlyn 1953 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)

**Digwyddiadau, mythau, a phreswylwyr enwog**

Gydol ei hanes, mae'r dref a'i aneddiadau cyfagos wedi bod ynghlwm â sawl digwyddiad a phobl hanesyddol, gan gynnwys y wasg argraffu gyntaf yng Nghymru ym 1719, a'r pwerdy cynhyrchu trydan cyntaf ym 1907. Cynhaliwyd gornest olaf Ceredigion yn y dref ym 1814.

Un o'r chwedlau mwyaf adnabyddus yw chwedl y Ddraig olaf yng Nghymru. Yn ôl y chwedl, yn ystod ffair yn y dref, glaniodd creadur draconaidd ffyrnig ag esgyll, yn anadlu tân a mwg, ar waliau'r castell a gwneud ei hun yn gartrefol yno yn barod i gysgu. Ceisiodd lond llaw o bobl ddewr o'r werin â dinistrio'r anghenfil, ac aeth milwr at y ddraig o'r afon Teifi a gosod clogyn coch ar yr afon. Deffrodd y ddraig, gan weld y clogyn, ac wrth iddo geisio ymosod arno cafodd ei

saethu gan y milwr. Crëwyd giatiau'r castell a cherflun ar dir y castell i ddathlu'r chwedl hon.

Ar wahân i'r rheini sydd eisoes wedi'u nodi, mae preswylwyr enwog eraill y dref yn cynnwys Evan Herber Evan, y gweinidog annibynnol, Allen Raine, y nofelydd, Martyn Lloyd-Jones, yr arweinydd efengylaidd sydd wedi'i gladdu yn y dref, John Elwyn, yr arlunydd a'r addysgwr a Dill Jones, y pianydd jazz.








Cerflun ar dir castell Castellnewydd Emlyn yn portreadu chwedl y Ddraig olaf yng Nghymru

# 4.0 Dadansoddi Gofodol

**4.1 Golygfeydd i'r AG, oddi mewn iddi ac ohoni**

Dylai effaith datblygiadau arfaethedig gynnwys ystyriaeth o olygfeydd i'r AG, oddi mewn iddi ac ohoni. Nodir y canlynol heb eithrio mannau gwylio eraill a gellir eu gweld ar y map canlynol.

*Castell Castellnewydd Emlyn*

Mae olion y castell, ar dir uwch, yn dirnod arwyddocaol yn y dref, er bod yr adeiladau i'r stryd yn cuddio hyn rhag y rhan fwyaf o'r prif dramwyfeydd nes i chi symud tuag at lannau'r afon. Wedi dweud hynny, mae ei arwyddocâd hanesyddol a rhwydwaith y ffyrdd yn caniatáu i'r castell barhau yn un o brif gyrchfannau'r AG. Ceir nifer o olygfeydd arwyddocaol o'r A475 ar ymyl gogleddol yr afon yn edrych yn ôl i'r AG. Mae nifer o'r rhan fwyaf o'r golygfeydd llawn cymeriad yn yr AG i'w gweld o'r castell a'i dir, sy'n cynnig golygfeydd panoramig o'r dref, er bod datblygiad cyfoes ar lannau'r afon ac ar dir uwch i'r de wedi effeithio ar y golygfeydd hyn yn negyddol.

*Tŵr Cloc Neuadd y Dref*

Wedi'i adeiladu yn lleoliad y cyn-farchnad Ganoloesol, yn hanesyddol mae'r safle hwn wedi bod yn lle ymgynnull ac yn dirnod yn y dref. Mae'r tŵr cloc yn cynnal ei berthynas, ac yn cael ei gyfnerthu gan natur linellog Heol y Coleg a Heol Sycamorwydden, gan ei wneud yn dirnod cyson wrth deithio o'r de i'r gogledd.

*Golygfeydd stryd*

Mae dau batrwm stryd amlwg yn yr AG sy'n newid y ffordd yr ydych chi'n gweld y strydlun. Mae Heol y Coleg a Heol Ebenezer yn cynnig golygfeydd pellgyrhaeddol clir a gweddol syth, yn eich galluogi chi i edrych ar adeiladau gyda'i gilydd. Ceir hyn ar Heol y Castell, Heol y Bont, Lôn yr Eglwys, Heol Newydd, a Stryd yr Hen Garreg, er mae'r rhain yn llawer byrrach neu ar ymyl yr AG, felly nid yw eu hyd lawn wedi'i chynnwys yn y ffin. Fel y cyfryw, gallai casgliad o fân newidiadau a datblygiadau mawr ar hyd y ffyrdd hyn amharu ar y nodwedd hon. Ochr yn ochr â hyn mae strydoedd bach, llwybrau bach a strydoedd cefn byrrach a mwy cyfyng, sy'n cynnig llwybrau drwodd, golygfeydd i du cefn eiddo a mwy o lwybrau troellog o gwmpas y prif dramwyfeydd. Fel ardaloedd eraill, gallai addasu'r adeiladau ar hyd y llwybrau hyn, neu gael gwared ar adeiladau ar hyd y llwybrau hyn, effeithio'n sylweddol ar nodweddion yr ardaloedd hyn, er gall yr effaith fod wedi'i chyfyngu i'w chyd-destun uniongyrchol.



Golygfeydd i'r gogledd o Heol y Coleg tuag at Neuadd y Dref a'r tŵr cloc



Golygfa o Heol Dŵr o Heol y Coleg

Nodir isod golygfeydd strydoedd dan sylw, heb eithrio eraill:

Heol y Bont i Bont Castellnewydd Emlyn

Heol y Castell i'r Castell

Heol y Coleg i Heol y Bont Lôn yr

Eglwys i Heol y Coleg Heol Dŵr i

Stryd yr Hen Graig

*Tirlun a mannau agored cyfagos*

Oherwydd topograffi yr ardal, mae sawl man y gallwch fynd i weld y bryniau cyfagos i'r gogledd a'r de, yn ogystal â'r afon Teifi, yn enwedig o olion y castell, y bont a Heol y Coleg. Mae'r rhain yn agweddau pwysig ar yr AG a dylid eu cynnal a'u cadw. Oherwydd dwyster rhan helaeth o'r ardal, mae'r rhain yn agos at gipolygfeydd lle mae toriadau yn y llinell adeiladau neu lle mae ffyrdd llinellog yn cynnig golygfeydd hirach tuag allan.

*Golygfeydd wedi'u rhwystro a chaeedig*


Er bod cryn dipyn o'r golygfeydd o fewn yr AG wedi'u dominyddu gan rai prif dramwyfeydd, mae'r cipolygfeydd i lawr strydoedd bach hanesyddol, rhwng adeiladau ac ar hyd strydoedd cefn hefyd yn rhan bwysig o gymeriad yr ardal. Oherwydd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, gall ansawdd weledol y golygfeydd hyn fod yn wael ac mae nifer o ddatblygiadau cyfoes digymeriad ar eu hyd, ond ni ddylid anwybyddu'r lleoedd hyn wrth ystyried arwyddocâd.




View south from Penlon Road



Views towards the town centre from the castle grounds




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
Mannau gwyrdd cadarnhaol / wedi'u tirlunio / coed
Toeau arwyddocaol
Y prif dirnod / adeiladau allweddol
Golygfeydd pwysig o'r dirwedd
Golygfeydd pwysig o'r stryd
Golygfeydd caeëdig
Golygfeydd terfynedig
Golygfeydd allwyredig

## 4.2 Prif Dirnodau ac Adeiladau Allweddol

Mae gan AG Castellnewydd Emlyn 30 o adeiladau a strwythurau rhestredig ac mae hynny'n dyst i ansawdd dda y bensaernïaeth a'r cysylltiadau a'r datblygiadau hanesyddol sy'n rhan hanfodol o'i chymeriad.

### Adeiladau a Strwythurau Rhestredig

*Castell Castellnewydd Emlyn*

Mae'r castell yn heneb gofrestredig ac yn strwythur rhestredig gradd I, ac yn cynnwys olion y castell Canoloesol sef tarddiad twf y dref. Wedi'i leoli ar dir uwch yn y dref ar gylch o fewn yr afon Teifi, mae nifer o'r golygfeydd wedi'u diffinio gan olion y castell yn ogystal â'r tirlun sydd o'i gwmpas. Mae ei arwyddocâd i ddatblygiad y dref a'i brinder fel enghraifft o gastell carreg wedi'i adeiladu gan Gymry hefyd yn arwyddocaol, yn ogystal â'r ardal gyffredin a hamdden mae'n ei darparu i'r dref.



*Pont Castellnewydd Emlyn*

Wedi'i hadeiladu yn ystod y 18fed Ganrif yn lle strwythur blaenorol, mae'r bont â 3 bwa yn heneb gofrestredig ac yn rhestredig gradd II*. Y bont yw'r brif fynedfa i'r AG o'r gogledd ac yn hanesyddol mae'n bwynt croesi pwysig y Teifi a hyrwyddodd ddatblygiad y dref. Mae'n dirnod unigryw yn y dref ac yn cynnig cyfres o olygfeydd panoramig ar hyd yr afon a'r dyffryn cyfagos.



*The Bunch of Grapes*

Tafarn restredig gradd II*, o bosibl yn dyddio'n ôl i ddiwedd y 17eg Ganrif wedi'i drosi o anheddfa flaenorol. Wedi'i rhestru fel adeilad tref o faint sylweddol ar adeg pan oedd cartrefi y maint hwn yn brin yng ngorllewin Cymru. Wedi'i osod ar fymryn o ongl i Heol y Bont, mae ei arwyddocâd wedi'i gyfnerthu drwy ddarparu ardal agored o seddi ar ymyl y stryd y tu ôl i reiliau metel addurniadol. Mae'r to hefyd yn nodedig. Gall peth ardal werdd i'r tu blaen helpu i leddfu ei hymddangosiad ar y strydlun a chynyddu ei gosodiad ymhellach.



*Neuadd y Dref ac Adeiladau'r Farchnad*

Wedi'i ddylunio gan David Jenkins o Landeilo a'i adeiladu ym 1892 ar hen safle'r farchnad Ganoloesol ar gyffordd tair ffordd. Mae ei leoliad, deunydd a'r to gyda thŵr cloc yn ei wneud yn dirnod nodedig yn y strydlun a'r nenlinell, yn rhwystro'r golygfeydd o sawl llwybr drwy'r AG. Mae'r adeilad yn rhestredig gradd II ac mae'n cynnal ei ddefnydd fel neuadd farchnad.



*Hen Victoria Stores*

Adeilad gweddol fach ar gornel yn dyddio'n ôl i ganol y 19eg Ganrif ar Lôn yr Eglwys a Heol y Bont gyda chornel dde-ddwyrain grom a bondo bordiog dwfn a ffenestri blaen siop syml wedi goroesi. Yn rhestredig gradd II, mae'n cynnig golygfeydd fframio cyffordd cryf tuag at Heol yr Eglwys, yn ogystal â chyfrannu'n gadarnhaol at leoliad neuadd y dref. Mae'r stwco allanol mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd, a byddai ei atgyweirio o fudd mawr i'r adeilad yn ogystal â'r AG yn gyffredinol.



*Gwesty'r Emlyn*

Yn dafarn Restredig Gradd II, sy'n dyddio'n ôl i ganol y 19eg Ganrif, gyda'i dai allan helaeth, mae'n nodedig am ei maint, 2 golofn yn y porth clasurol, a ffenestri bae sy'n estyn allan. Mae'r tai allan, er mai effaith fach maen nhw'n ei chael o'r brif ffordd, yn olion hanesyddol o fasnach y 19eg Ganrif a helpodd i dyfu'r dref, yn cynnig stablau i ymwelwyr, masnachwyr, a phorthmyn. Wedi'u codi o ymyl y stryd, caiff uchder yr adeiladau ei gyfnerthu ar dalcen yr eiddo, ac maent yn eithaf amlwg wrth deithio o'r gogledd i'r de.



*Capel Presbyteraidd Bethel ac Ysgoldy*

Wedi'i adeiladu ym 1820, a'i ailadeiladu ym 1869, Capel Methodistiaid Calfinaidd oedd hwn yn wreiddiol, ond mae bellach yn gapel Presbyteraidd. I dde-ddwyrain y capel, ceir ysgoldy, wedi'i ddylunio yn ôl yr un arddull oddeutu 1900. Yn adeilad rhestredig gradd II, mae'r manylion, y màs, a'r wal ffin gyda'r giât metel addurniadol yn rhan arwyddocaol o gymeriad Lôn yr Eglwys. Mae'r capel wedi'i atgyweirio yn ddiweddar, ac mae fflatiau wedi'u creu yn nhu cefn yr adeilad.



*Y Llys*

Hen lys rhestredig gradd II yn dyddio'n ôl i 1870, a gafodd ei ddylunio gan C Reeves a oedd yn bensaer llysoedd sirol Cymru a Lloegr. Mae'r garreg galch las gyda charreg wedi'i cherfio ag arfbais yn rhan arbennig o nodweddiadol ar y stryd. Mae adeilad un llawr, y to a'r simneiau hefyd yn gwneud cyfraniad nodedig, wedi'u pwysleisio gan yr ardaloedd agored a lefelau is yr adeiladau cyfagos.



*Neuadd Eglwys y Drindod Sanctaidd*

Adeiladwyd y neuadd ym 1848 ac fe'i hymestynnwyd ym 1856 i ddyluniadau gan Charles Davies o Genarth. Ym mhen Lôn yr Eglwys, mae'r adeilad wedi'i osod yn ôl oddi wrth y ffordd gyda lle gwylio cyhoeddus ar gyfer y parc y tu ôl i wal ffin isel o garreg. Mae'r adeilad rhestredig gradd II yn dirnod yn ei hawl ei hun, drwy ei waliau a thalcenni o garreg galch las patrymog. Mae hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at leoliad Capel Bethel, y llys, Eglwys y Drindod Sanctaidd, a'r parc.



*Eglwys y Drindod Sanctaidd*

Eglwys Anglicanaidd a adeiladwyd ym 1841 i ddyluniadau gan JL Collard o Gaerfyrddin a ddaeth yn eglwys blwyf y dref. Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig gradd II a chafodd ei hail-fodelu ym 1920 gan Caroes. Mewn arddull Gothig blaen mewn mynwent fawr sy'n dirnod i ffin ddwyreiniol yr AG ac yn creu grŵp arwyddocaol gydag adeiladau ar wahân eraill ar hyd Lôn yr Eglwys.



*Angel House*

Adeilad teras rhestredig gradd II gyda 6 bae ac sy'n arbennig o nodedig am ei flaen siop sydd â braced metel addurniadol ar lefel bargod.



*National Westminster Bank*

Gyda'r dyddiad 1930 ar nwydd dŵr glaw, cafodd yr adeilad rhestredig gradd II hwn ei ddylunio ar gyfer y National Provincial Bank, o bosibl gan Palmer a Holden, a oedd yn benseiri banciau yn y cyfnod rhwng y rhyfeloedd. Er bod ei du allan o dywodfaen brown a'i do talcen yn annodweddiadol ar Heol y Coleg, mae ansawdd dyluniad a manylion yr adeilad yn ei wneud yn dirnod yn hytrach na rhywbeth sy'n tynnu'ch sylw.



*Capel Bedyddwyr y Graig*

Yn Gapel Bedyddwyr rhestredig gradd II yn dyddio'n ôl i 1875 mewn arddull Eidalaidd gyda phorth talog a ffenestri bwaog tri darn. Wedi'i osod yn ôl o ymyl y stryd gyda rheiliau a giatiau metel addurniadol a llusern uwchben. O ystyried hyn a'r tir yn y tu blaen sydd â choed yw, mae'n gyfraniad nodweddiadol at y stryd ac yn helpu i feddalu'r tir trefol caled.



*Yr hen Ysgol Ramadeg*

Sefydlwyd yr ysgol ramadeg ym 1867, er mae'n bosibl bod yr adeilad yn dyddio'n ôl i strwythur cynharach o'r 19eg Ganrif a gafodd ei ailddefnyddio gyda'r ysgol a gafodd ei symud o Adpar. Mae'r adeilad yn un rhestredig gradd II ac mae plac uwchben y drws yn nodi ei ddefnydd blaenorol. Erbyn hyn mae'r adeilad yn cael ei defnyddio fel Neuadd Sefydliad y Merched. Er nad yw'n fawr iawn, mae ei leoliad ar gornel Heol Dŵr a Stryd yr Hen Graig yn nodi cyffordd allweddol. Byddai ailddatblygu'r gyffordd hon sy'n cael ei dominyddu gan arwyddion traffig ar hyn o bryd, yr estyniadau cyfoes y tu ôl iddi a'r palmentydd tarmac, mewn modd ystyriol yn helpu i wella lleoliad yr adeilad.



*Capel Annibynwyr Ebenezer*

Capel rhestredig gradd II yn dyddio'n ôl i 1808, mae'n debyg wedi'i ymestyn tua'r de ym 1844 gyda ffasâd newydd wedi'i ddylunio'n 1880 er mwyn gwneud y galeri yn fwy. Roedd hyn yn cynnwys newid arris to ar gromlin ac adeiladu'r wal flaen tuag allan gyda cherrig a ffasâd talog terracotta, yn gysylltiedig â'r waliau ochr gwreiddiol gan waliau cromlin cwadrant wedi'u plastro gyda pharaped o garreg. Y manylion hyn yn arbennig sy'n creu strwythur anarferol a nodedig i'r stryd. Mae'n werth nodi hefyd y rheiliau metel addurniadol o gwmpas y capel, gyda'i raddfa a'i fàs yn cynyddu ei osodiad.



**Adeiladau a Strwythurau Anrhestredig Pwysig**

Nid yw'r adeiladau canlynol yn rhai wedi'u rhestru'n statudol, ond maent yn atgyfnerthu cymeriad yr ardal, yn darparu tirnod pwysig neu'n rhan o dreftadaeth Caerfyrddin oherwydd arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol, neu archaeolegol, ac yn cael eu cydnabod yn asedau treftadaeth na ellir eu disodli. Mae nifer o'r rhain yn enghreifftiau da o'r datblygiad a ddigwyddodd ar ddechrau a chanol yr 20fed Ganrif, y mae eu cyfraniad at yr AG yn deilwng hefyd. Fel y cyfryw, rydym yn cynnig eu cynnwys ar restr o adeiladau lleol teilwng; ni fyddai hyn yn rhoi gwarchodaeth statudol i adeilad ac ni fyddai angen caniatâd adeilad rhestredig i adeilad sydd wedi'i restru'n lleol, ond byddai diddordeb arbennig yr adeilad yn ystyriaeth sylweddol yn y broses gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

*Canolfan Arddio Trefhedyn*

Wedi'i leoli ger The Bunch of Grapes ar Heol y Bont, mae'n rhannu priodweddau â'r dafarn y drws nesaf er mae'n debyg bod honno wedi'i hadeiladu'n ddiweddarach, gan gynnwys ei osodiad yn ôl oddi wrth ymyl y stryd gyda chwrt blaen mawr y tu ôl i ffens ffin metel addurniadol. Mae hyn, a'i flaen siop yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y stryd.




*11 Heol y Bont*

Adeilad â 3 llawr gyferbyn â'r ganolfan arddio sy'n amlwg am ei faint, yn ogystal â'i borth sy'n estyn allan, ffenestr fae a blaen siop syml o'r 19eg Ganrif. Mae cyflwyno gro chwipio i'r prif ffasâd wedi effeithio'n negyddol ar yr adeilad ond mae'r ffenestri codi a fframiau'r ffenestri yn dal i fodoli.



*20 Heol Sycamorwydden*

Yn nodedig fel pâr o adeiladau cornel ar Heol yr Eglwys a Heol y Bont, gyda'r hen Victoria Stores gyferbyn â nhw. Mae gro chwipio wedi'i ychwanegu at y ffasadau ac mae ffenestri blaen siop uPVC a'r ffasgia mawr wedi effeithio'n negyddol ar yr adeilad, ond mae ei fynedfa grom gyda chornel â blaen uwchben yn goroesi, gan greu cyffordd gref sy'n ymateb i'r adeilad gyferbyn.



*The Three Compasses*

Er ei fod wedi'i addasu'n sylweddol gydag ymestyniad blaen siop gwael, porth a ffenestri uPVC, mae gosodiad yr adeilad oddi wrth ymyl y stryd a'i leoliad yn rhwystro golygfeydd o stryd fechan wrth gerdded o'r farchnad wartheg i Heol y Coleg, gan gynnal ei amlygrwydd ar y stryd. Byddai mân atgyweiriadau sensitif i'r adeilad, yn ogystal ag ail-wynebu'r palmant lletach y tu allan yn fuddiol.




*Old Cawdor Hotel*

Hen westy dan reolaeth ranedig erbyn hyn gyda thair siop ar lefel y llawr gwaelod sydd wedi cael gwared ar gymesuredd blaenorol yr adeilad. Mae'r brics coch a'r stwco yn eithaf nodweddiadol, yn ogystal â'r tri thalcen ar lefel y to. Byddai ail-uno'r llawr gwaelod drwy ddull tebyg i ddyluniad y blaen siop yn helpu i ail-gyflwyno peth o'i gymeriad coll.




*Tivy Hall*

deilad brics coch anghyffredin ar Heol y Coleg gyda thalcenni addurnol, manylion terracotta a gwydr lliw ac enw'r adeilad ar ffenestri'r siop. Er ei fod yn wahanol i'r adeiladau cyfagos ac adeiladau eraill yn yr AG, mae ei ddyluniad a'i ddeunyddiau o ansawdd yn ei ganiatáu yn ychwanegiad nodweddiadol.



*Plough Hotel*

Yn un o lu o dafarndai o'r 19eg Ganrif sydd i'w gweld yn y dref, mae'r Plough yn nodedig am ei 3 thalcen a phorth estynedig gyda ffenestri lliw yn dangos enw'r adeilad.



*5 Heol Dŵr*

Tŷ diwedd teras sy'n unigryw am ei waith coed sydd wedi goroesi, ffenestr fae a phorth addurniadol sy'n ymestyn ar draws y ffasâd cyfan ac yn cynnwys rheiliau ffiniau oddi mewn iddo.



*4 Heol Dŵr*

Wedi'i leoli gyferbyn â Chapel Bedyddwyr y Graig a 5 Heol Dŵr, mae ei du blaen o gerrig rwbel gyda ffenestri bwaog a phorth metel sy'n estyn allan yn ei wneud yn unigryw ar y stryd ac yn cyd-fynd â rhif 5. Byddai disodli deunydd y to ar y porth gyda deunydd traddodiadol, megis llechi, pren neu wydr yn fuddiol.



*27 Blaenwern*

Adeilad un llawr gweddol fach ac unigryw y credir sy'n strwythur parod a gafodd ei adeiladu wedi'r rhyfel. Er ei fod wedi'i addasu'n sylweddol, mae'n cynnal ei fàs, ei siâp a'i ddefnydd blaenorol fel garej.




*Gwynfryn*

Tŷ ar wahân sylweddol wedi'i leoli uwchben Stryd yr Hen Graig ac sydd â cherbyty ar wahân ar ei dir helaeth. Wedi'i leoli uwchben y ffordd ar dir uchel i'r de, mae wedi'i guddio i raddau helaeth rhag ei gyffiniau uniongyrchol, ond mae'n dirnod clir wrth edrych o dir y castell.



*Glyn Nest*

Bellach yn gartref gofal, mae hwn yn anheddiad blaenorol sylweddol sydd wedi'i osod yn ôl oddi mewn i blot mawr. Mae nifer fawr o estyniadau wedi cymylu ei ymddangosiad gwreiddiol ond mae'n dal i fod yn adnabyddadwy i raddau helaeth. Fel mae'r cyfle yn codi, byddai ailddylunio'r estyniadau hyn, neu eu trosi'n ôl yn anheddiad yn fuddiol i'r rhan hon o'r AG, o ystyried ei fod yn adeilad sylweddol ar y stryd.



*Festri Ebenezer*

Gyferbyn â Chapel Annibynnwyr Ebenezer ac yn debygol o fod yn gyfoes gan ei fod wedi'i adeiladu ar ddechrau'r 19eg Ganrif. Mae'r adeilad yn weddol fach, o garreg batrymog gydag un llawr ac agoriadau bwaog syml. Wedi dweud hynny, mae ei gysylltiad â'r capel gyferbyn, y rheiliau metel addurniadol a'r pileri cerrig yn wynebu'r ffordd yn ogystal â'i ffurf grefyddol draddodiadol yn ei ganiatáu i gynnal ei le ar y stryd.



*Cofeb Ryfel*

Wedi'i adeiladu'n wreiddiol y tu cefn i'r castell ym 1923 i gofio'r rhai o'r dref a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Ychwanegwyd llechen arall i gofio'r rhai a fu farw yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Symudwyd hi ym 1985 i safle rhwng Eglwys y Drindod Sanctaidd a'r Llys fel lleoliad mwy cyfleus i gynnal gwasanaethau coffa, ac yn sgil hynny mae ardal gyhoeddus fawr o'i blaen sy'n gyrchfan amlwg ar hyd Lôn yr Eglwys.



## Blaen siopau nodedig

Fel prif graidd manwerthu'r dref, mae blaen siopau yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr AG ac yn cynrychioli cyfnod pwysig o ddatblygiad yn y 18fed a 19eg Ganrif pan gafodd y rhan hon o Gastellnewydd Emlyn ddatblygiad sylweddol. Mae'r enghreifftiau sy'n parhau o flaen siopau hanesyddol o arwyddocâd sylweddol, a dylid eu gwarchod. Gellir rhagdybio bod rhagor o ddeunyddiau hanesyddol wedi'u cuddio gan ffasgiâu mawr neu ddeunyddiau cyfoes. Yn ogystal, dylid ystyried ardaloedd sydd â rhannau o ddeunydd yn werthfawr a dylid annog ail-gyflwyno elfennau coll. Mae'r blaen siopau canlynol wedi'u nodi gan fod eu tu blaen wedi goroesi ers y 18fed neu'r 19eg Ganrif ac fel y cyfryw maent yn ychwanegiad llawn cymeriad at y strydlun. Mae rhai blaen siopau sy'n dyddio'n ôl i ddechrau'r 20fed Ganrif wedi'u cynnwys am eu hansawdd pensaernïol. Nodwyd hefyd y rheini sydd â darnau rhannol yn parhau.

6 Heol Dŵr (rhannol yn unig)

7 Heol Dŵr

4 Heol Dŵr

3 Heol Dŵr

Tivy Hall

1 Rhes y Cawdor, Heol y Coleg

2 Rhes y Cawdor, Heol y Coleg

3 Rhes y Cawdor, Heol y Coleg

8 Rhes y Cawdor, Heol y Coleg (rhannol)

6 Heol y Coleg (rhannol)

Old Cawdor Hotel (uned de)

Manchester House, Heol y Coleg

1 Heol Sycamorwydden (rhannol)

2-3 Heol Sycamorwydden (rhannol)

9 Heol Sycamorwydden

10 Heol Sycamorwydden

14 Heol Sycamorwydden

17 Heol Sycamorwydden

22-23 Heol Sycamorwydden Cambrian House (rhannol)

2 Sgwâr y Farchnad, Market Square (preswyl)

3 Sgwâr y Farchnad, Market Square

2 Royal Oak Mews, Sgwâr y Farchnad

3 Royal Oak Mews, Sgwâr y Farchnad

9a Heol y Bont

Victoria Stores gynt

Canolfan Arddio Trefhedyn

9 Heol y Bont



2 Rhes y Cawdor




17 Heol Sycamorwydden

### 4.3 Mannau Gwyrdd a Naturiol Pwysig

Mae nifer o ardaloedd gwyrdd yn yr AG sy'n cynnig toriadau pwysig i ddwyster uchel yr adeiladau ar y stryd a lleoedd i gael seibiant, myfyrio a lleoliadau i werthfawrogi'ch amgylchoedd. Mae nifer o fannau gwyrdd yn yr Ardal Gadwraeth sy'n ychwanegu'n fawr at ei chymeriad ac yn darparu seibiannau pwysig i ddwyster uchel yr adeiladau ar y stryd a lleoedd i ymlacio, myfyrio a gwerthfawrogi'r amgylchfyd. Maent hefyd yn cynnig buddion i lesiant y rheini sy'n eu defnyddio ac felly yn cyflwyno gwerth diwylliannol a chymunedol hefyd. Mae'r prif nodweddion a'r mannau yn cynnwys;

- Castell Castellnewydd Emlyn
- Caeau Chwarae Brenin George V
- Eglwys y Drindod Sanctaidd
- Glannau'r afon Teifi
- Capel Bedyddwyr y Graig

Dangosir mannau gwyrdd ar y map canlynol.





Caeau chwarae Brenin George V.



Tir Castellnewydd Emlyn




Glannau'r afon Teifi




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
Mannau gwyrdd
Parciau
Gerddi preifat/lled-breifat
Coed
Grŵp o goed

## 5.0 Cymeriad ac Ymddangosiad

Mae'r adran hon yn disgrifio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal fel yr oedd ar adeg yr astudiaeth. Mae dwy ran wahanol i'r AG: Canol y Dref ac Ardal y Castell, sy'n cynnwys Heol y Coleg, Heol Sycamorwydden a Heol y Bont, ac yn mynd drwy ganol y dref gan ddarparu'r prif ganolfan fasnachol, ynghyd â strydoedd ynghlwm; a'r Ardal Ddeheuol – yn cynnwys yr eiddo preswyl i'r de sydd wedi'u lleoli ar ffyrdd eilaidd, gan gynnwys llethrau deheuol yr AG. Mae patrymau gwahanol strwythur y stryd a defnydd adeiladau yn addasu'r ffordd mae pobl yn symud drwy'r ardaloedd hyn ac yn eu gweld, ac mae hynny felly yn creu dau gyfuniad o nodweddion unigryw. Cynigir diffinio dwy ardal gymeriad sy'n ymateb i'r newidiadau hyn, gan helpu i warchod, rheoli a chyfnerthu'r gwahaniaethau yn ogystal â'r tebygolrwydd rhyngddynt.




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
1 Ardal Gymeriad Canol y Dref a'r Castell
2 Ardal Gymeriad y De

### 5.1 Nodweddion y Dref

*Ardal Gymeriad Canol y Dref a'r Castell*

Mae Heol y Coleg a Heol Sycamorwydden yn torri drwy ganol yr AG fel llwybr llinellog gydag adeiladau fel arfer wedi'u lleoli ar ymyl y stryd yn cau golygfeydd ond gyda golygfeydd hirach i'r tirlun yn y gogledd a'r de, gyda Gwynfryn yn dirnod amlwg ar y gorwel. Mae neuadd y dref yn cynnig pwynt ffocws cryf gyda'r tŵr cloc yn dirnod gweledol cyson yn y nenlinell wedi'i gyfnerthu gan ansawdd yr adeilad a'r strydoedd cyfagos sy'n ei wynebu, gan greu porth cadarnhaol i'r castell a'r bont y tu hwnt. Strydoedd mwy cyfyng Sgwâr y Farchnad a'r

Mae Maes y Farchnad yn cynnig teimlad mwy clos i'r lleoedd hyn ac yn darparu trosglwyddiad nodweddiadol i Heol y Castell a'r Castell y tu hwnt, gan leddfu'r adeiladau masnachol a strydoedd caeedig tuag at y rheini sy'n fwy agored gyda golygfeydd tuag allan. Mae Heol y Bont a Heol Dŵr ar bob pen y llwybr hwn ac ar strydoedd byrrach sy'n troi, ac mae'r rheini yn creu eu cymeriad eu hunain. Mae'r adeiladau yma yn fwy cyson na'r strydoedd cyfagos, yn enwedig Heol Sycamorwydden, ond ceir amrywiaeth yn y blaen siopau sydd o ansawdd amrywiol. Mae datblygiad tai cyfoes wedi'i greu ar yr ochr ogleddol sy'n nodi toriad yn y llinell stryd. Er bod hyn yn amharu ar y wedd sydd fel arall bron â bod yn gyson i'r stryd, mae'r golygfeydd tuag at yr afon yn gwneud hyn yn agwedd gadarnhaol, er nad yw'r datblygiadau eu hunain yn cyd-fynd â'r AG o ran eu harddull pensaernïol. Mae'r wal ffin yn cynnal ymyl caled i'r stryd, ac felly mae'n bwysig cynnal a chadw hwn.

Diffinnir Heol y Bont gan neuadd y dref ar un pen a'r bont ar yr ochr arall, gyda'r palmentydd uwch, ffiniau i ymyl y stryd a chyfuniad o adeiladau masnachol a phreswyl yn lleddfu dwyster canol y dref ac yn creu man cyrraedd, neu adael cadarnhaol. Yn anffodus, mae ansawdd rhai o'r adeiladau hyn wedi dirywio oherwydd addasiad amhriodol a diffyg cynnal a chadw, ac mae disodli, addasu a chael gwared ar y waliau a rheiliau ffin hyn wedi effeithio ar ansawdd weledol y stryd hon. Mae lefel uchel o amrywiaeth yn yr ardal hon mewn cymhariaeth â Heol Sycamorwydden a Heol y Coleg o ran cymeriad pensaernïol a sut mae'r adeiladau yn wynebu'r stryd. Mae cyrtiau blaen mwy yn The Bunch of Grapes a'r ganolfan arddio yn llefydd cadarnhaol sy'n eich caniatáu chi i gamu'n ôl oddi wrth y traffig a rhoi cyfle i fyfyrio ar yr amgylchedd.

Mae cyffordd Heol y Coleg a Heol Dŵr yn cynnig cyfle arall i wneud hynny, gyda phalmant lletach i'r dwyrain a seddi awyr agored ar y gornel yn darparu lleoedd i orffwys, er bod y rhan fwyaf o'r rhain yn wynebu'r ffordd brysur gan leihau ansawdd y profiad hwn. Mae Heol Dŵr y tu hwnt, fel Heol y Bont, hefyd yn amrywiol a cheir cyfres o adeiladau o ansawdd dda yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif yno, gydag arddulliau a defnyddiau gwahanol sydd eto yn fynedfa gadarnhaol i'r dref. Effeithir yn negyddol ar hyn gan y gyffordd i Heol Ebenezer sydd wedi'i diffinio gan seilwaith priffyrdd ac estyniadau o ansawdd wael i Stryd yr Hen Graig o'r 20fed Ganrif.




Heol y Castell ac edrych tuag at Heol Sycamorwydden




Lôn yr Eglwys o Heol Sycamorwydden

Mae Heol y Castell i'r gwrthwyneb, mae dwyster llawer is yno gyda golygfeydd agored i'r afon ar ymyl deheuol y ffordd a sawl coeden ar y stryd. Mae cyflwr Neuadd Emlyn yn cael effaith negyddol ar y golygfeydd drwy'r stryd hon ond gallai fod yn ychwanegiad cadarnhaol petai'n cael ei atgyweirio'n sensitif. Mae natur agored y stryd hon yn elfen gadarnhaol ac yn eich arwain chi o'r canol lle mae siopau a dwyster uwch i dir y Castell sy'n fwy tawel ac agored. Fel y cyfryw, dylid atal unrhyw ddatblygiad yma er mwyn cynnal yr ansawdd hon, neu os credir bod datblygiad yn angenrheidiol, dylai ei effaith fod yn fach a dylai gynnal y teimlad hwn o agoredrwydd.

Fel Heol y Castell, mae gan Lôn yr Eglwys olygfeydd wedi'u rhwystro ar un pen gan neuadd y dref, ond mae'r ochr arall yn arwain at ardal ehangach o wyrddni, caeau chwarae Brenin George V a'r Drindod Sanctaidd, yn ogystal â'r golygfeydd hirach o'r tirlun i'r gorllewin, ar Lôn yr Eglwys. Yn yr un modd â Heol y Castell, mae'r adeiladau yn llawer llai dwys ac yn dueddol o fod ar wahân ac wedi'u lleoli yn ôl o ymyl y stryd y tu ôl i waliau ffiniau. Y gofeb ryfel a'r ardal drefol sy'n edrych dros y caeau chwarae yw'r ardaloedd trefol mwyaf ar gyfer ymgynnull yn yr AG ond mae gofyn mynd i chwilio amdanynt oherwydd eu bod wedi'u rhwystro a'u cuddio y tu ôl i adeiladau wrth edrych o Heol Sycamorwydden.

O gwmpas y strydoedd cynradd ac eilaidd hyn ceir cyfres o strydoedd bach a mynedfeydd bwaog sy'n arwain at dai allan i'r cefn ac ardaloedd gwasanaethau. Yn ogystal â bod yn llwybrau drwodd, maen nhw hefyd yn cynnig cipolygfeydd i'r tirlun tu hwnt. Enghraifft gadarnhaol o hyn yw'r hen adeiladau gwasanaethau y tu ôl i Westy'r Emlyn sy'n arwain at dir Eglwys y Drindod Sanctaidd. Enghraifft fwy negyddol o hyn yw'r llwybr o'r Old Cawdor Hotel sydd erbyn hyn yn arwain at faes parcio a garejys. Mae'r maes parcio yma a'r maes parcio i'r gorllewin o'r farchnad wartheg y tu hwnt i'r AG ond yn aml maent yn fynedfeydd ar gyfer y rheini sy'n ymweld â'r dref. Ar hyn o bryd mae'r ddau yn rhoi argraffiadau cyntaf gwael o'r dref, wedi'u nodweddu gan ddatblygiad cyfoes ac estyniadau y tu ôl i'r adeiladau ar Heol y Coleg. Byddai addasu'r llwybrau hyn yn gwella'r mynedfeydd allweddol.

*Ardal Gadwraeth Ddeheuol*

Yn unigryw gyda'i strwythur mwy llinellog, dwyster uchel a ffocws masnachol canol y dref yn yr ardal gymeriad, ardaloedd preswyl yw Heol Ebenezer a'r ffyrdd cysylltiedig i'r de gydag adeiladau o wahanol oedran, arddull a màs. Ceir y cysondeb gorau o ran dyluniadau ar Heol Ebenezer gyda therasau o fythynnod gweithwyr yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif. Mae'r rhain yn gwrthgyferbynnu'n weddol amlwg â'r adeiladau ar wahân cyfoes sy'n dyddio'n ôl rhwng canol a diwedd yr 20fed Ganrif sydd i'w gweld fwyaf ar ymyl deheuol y stryd ac wedi'u gosod yn ôl oddi wrth y ffordd ac yn uwch na hi sy'n cyfnerthu eu màs. Er enghraifft, cyffordd Heol Penlon. Nid yw hon yn agwedd negyddol o reidrwydd ond mae'n gofyn ystyriaeth ofalus i sicrhau bod elfennau cyffredin yn y manylion a'r dyluniadau. Pryd bynnag nad dyma'r achos, megis yr adeilad ar wahân ar gyffordd ddwyreiniol Teras Penlan, mae hyn yn tynnu oddi ar ei amgylchoedd. Mae dau ddatblygiad mawr arall ar y ffordd hon yn amlwg oherwydd eu màs; Capel Annibynwyr Ebenezer a chartref preswyl Glyn Nest. Oherwydd ei ansawdd pensaernïol a deunydd, a'r ffin i ymyl y ffordd, mae'r cyntaf yn ychwanegiad cadarnhaol, er y gellid gwella ei ymddangosiad drwy ei lanhau a



Cyffordd Heol y Coleg a Heol Dŵr




Heol Sycamorwydden tua'r gogledd

gwyngalchu'r ochrau. I'r gwrthwyneb, mae gan Glyn Nest gyfres o estyniadau sydd wedi drysu ei ymddangosiad gwreiddiol. Mae ganddo effaith fawr ar Stryd Ebenzer a Heol Penlon oherwydd ei leoliad ar gornel, ffiniau isel, a phlot agored mawr. Gall cyflwyno coed ar ffiniau, neu driniaeth gyson i'r ffiniau, helpu i ail-sefydlu ymyl y stryd a lleddfu peth o effaith y strwythur mawr hwn. Yn y pendraw, byddai datblygiad sensitif yr adeilad ei hun yn fuddiol.

Oherwydd yr amrywiaeth hwn, mae'r golygfeydd ar hyd Heol Ebenezer a Stryd yr Hen Graig yr un mor newidiol â'i gilydd, o olygfeydd llinellog, caeedig, i gipolygfeydd rhwng adeiladau, ar hyd gerddi blaen, a'r tirlun mwy dwys tuag at y ffin orllewinol, ond mae'r golygfeydd hirach allan at y tirlun yn gyson o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae'r hierarchaeth rhwng y brif ffordd a'r ffyrdd eilaidd i'r de hefyd yn amlwg iawn, gyda phalmentydd a waliau ffiniau wedi'u disodli gan ymylon y tirlun sy'n adlewyrchu'r datblygiadau o natur bythynnod yma, megis Heol Penlon. Ceir teras arbennig o nodweddiadol ar Chwarel Ffinant ac oherwydd y tirlun caeedig ar y ddwy ochr, teimlai fel petai'r fan hon  gwbl ar wahân i weddill yr AG. Dyma yw'r achos yn Nheras Penlan hefyd. Lle mae'r ardaloedd unigryw hyn yn bodoli, ni ddylai addasiadau na datblygiadau newydd wanhau'r nodweddion unigryw.

Oherwydd topograffi'r ardal, mae'r rhan fwyaf o'r datblygiadau y tu ôl i Heol Ebenezer a Stryd yr Hen Graig wedi'u cuddio rhag y brif dramwyfa ac felly dim ond preswylwyr sy'n mynd atynt, megis Teras Penlan. Fel y cyfryw, caiff effaith rhai datblygiadau cyfoes nad ydynt yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal ei lleihau.

Fel ardal breswyl, mae cyfraniad gerddi yn rhan sylweddol o gymeriad yr ardal. Lle mae'r rhain wedi'u disodli â lloriau caled a chyrtiau blaen, maent wedi dechrau erydu'r agwedd hon.



Bythynnod gweithwyr yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif i'r gorllewin o Heol Ebenezer



Teras Chwarel Ffinant



Tai ar wahân yn dyddio'n ôl i'r 20fed Ganrif i'r dwyrain o Heol Ebenezer

## 5.2 Deunyddiau Adeiladu

Mae’r delweddau a’r rhestr ganlynol yn nodi enghreifftiau o’r deunyddiau a ddefnyddir yn yr AG sydd naill ai’n cyfnerthu neu’n gwarchod nodweddion yr ardal.

<u>Ardal Gymeriad Canol y Dref a’r Castell</u>

*Adeiladau tirnod mwy Carreg*

Pennant batrymog Carreg

wedi’i naddu â morthwyl

Carreg galch las Brics coch

Terracotta

Carreg – manylion a charreg galch a

Stwco (patrymog a heb batrwm)

Gwydr lliw

*Deunyddiau cyffredin*

Rendr wedi’i beintio

Plastr garw

Carreg rwbel, wedi’i pheintio a heb ei pheintio
Gorchuddion to llechi

Gwaith plwm

Gwaith pren wedi’i beintio Nwyddau dŵr glaw haearn bwrw
Blaen siopau pren

*Triniaethau i ffiniau*

Carreg rwbel batrymog, wedi’u capio â charreg, carreg â’i phen i lawr a rendr

Gwaith haearn bwrw/gyr yn aml ar blinthiau solet gyda giatiau



## Ardal Gadwraeth Ddeheuol

*Adeiladau tirnod mwy*

Carreg wedi'i naddu â morthwyl

Carreg – manylion a charreg galch

Ffrâm bren â phanelau wedi'u rendro

*Deunyddiau cyffredin*

Rendr wedi'i beintio

Plastr garw

Carreg rwbel, wedi'i pheintio a heb ei pheintio
Gorchuddion to llechi

Gwaith plwm

Gwaith pren wedi'i beintio

Nwyddau dŵr glaw haearn bwrw

*Triniaethau i ffiniau*

Carreg rwbel batrymog gyda chapiau mortar a charreg
Gwaith haearn bwrw/gyr ar waliau carreg isel Llystyfiant



## 5.3 Uchderau Adeiladau a Chysylltiadau â Phlotiau

*Ardal Gymeriad Canol y Dref a'r Castell*

Yn nodweddiadol, mae gan adeiladau 2 lawr, a 3 llawr mewn adeiladau mwy, gydag amrywiaeth yn uchderau'r lloriau sy'n creu toeau a golygfeydd amrywiol o'r talcenni wrth i chi edrych drwy'r strydoedd. Yn aml mae'r trydydd llawr wedi'i gynnwys ar atig drwy ddormeri neu barabed sy'n lleihau eu huchder cyffredinol ac yn cyfyngu cysgodi ar eiddo cyfagos. Mae'r llethr i lawr at yr afon ar Heol y Bont yn cael yr effaith wrthgyferbyniol, yn gwneud i adeiladau ymddangos yn uwch wrth edrych o Bont Castellnewydd Emlyn. Fel y cyfryw, mae angen i unrhyw gynnydd mewn uchder yma ystyried yn ofalus yr effaith ar olygfeydd o'r strydoedd. Mae gan Heol yr Eglwys nifer o adeiladau un llawr, ond oherwydd eu bod ar wahân ac o ansawdd dda, ni ymddengys eu bod yn groes i natur y lle. Mae pâr o siopau un llawr wedi'u hymgorffori ar Heol Sycamorwydden ond maent yn drawiadol oherwydd eu dyluniad o ansawdd waelach. Mae rhai adeiladau cyfoes â 3+ llawr wedi'u hadeiladu ar ymyl dwyreiniol y parc ac yn fwy na'r adeiladau cyfagos iddynt gyda thalcenni yn amlwg dros do yr hen ysgol ac yn tynnu oddi ar ei leoliad.

Mae nifer o ardaloedd lle allwch weld y talcenni cefn i Heol y Coleg, Heol Sycamorwydden, Heol y Bont a Lôn yr Eglwys. Mae'r talcenni hyn yn darparu llawer mwy o amrywiaeth gydag estyniadau ac addasiadau o loriau unigol yn ogystal â thai allan hanesyddol, y cwbl gyda màs a ffurf wahanol.

Mae'r adeiladau wedi'u lleoli yn uniongyrchol ar ymyl y stryd ac eithrio Lôn yr Eglwys, Heol y Bont a Heol Dŵr sydd â chyfuniad o erddi blaen a chyrtiau blaen cul y tu ôl i reiliau metel a waliau ffin carreg. Mae Eglwys y Drindod Sanctaidd a'r Castell yn eithriadau amlwg i hyn, a hwythau wedi'u gosod ar eu tir eu hunain, yn ogystal ag Eglwys Bedyddwyr y Graig, sydd wedi'i osod yn ôl oddi wrth y palmant gyda thir wedi'i dirlunio at y stryd. Lle mae adeiladau wedi'u gosod ar ymyl y stryd, mae'r llinell adeiladau yn amrywiol gyda ffenestri bae, blaen siopau sy'n estyn allan, canopïau a phyrth drysau, wedi'u cyfnerthu ymhellach gyda lled amrywiol i'r palmant. Mae hyn fwyaf amlwg ar Heol y Coleg gyda llinell fwy cyson ar Heol Sycamorwydden.

Nid oes ymylon gwyrdd ar y stryd, mae'r ardaloedd gwyrdd y tu ôl i waliau ffin carreg sy'n cynnal ymyl caled i'r stryd. Yr unig eithriad i hyn yw Heol y Castell lle mae'r golygfeydd i'r afon i'r de ac ymyl y stryd wedi'u diffinio gan y llefydd parcio, rhwystrau pren isel a'r tirlun y tu hwnt.

Mae'r tiroedd bwrdais a arferai ddiffinio'r ardal o gwmpas neuadd y dref wedi'u colli bellach, er bod y plotiau mwy cul gyda lled 2 fae yn dal i fod yn amlwg sy'n cadw peth o'r nodwedd goll hon. Gan fod yr adeiladau wedi'u hailddatblygu, mae lled y bae wedi cynyddu ac erbyn hyn mae cryn dipyn o amrywiaeth ar draws yr ardal. Mae hyn wedi'i gyflawni fwyaf llwyddiannus lle mae'r talcen wedi'i dorri i lawr i ymateb i'r lled bae mwy cul blaenorol. Lle mae talcenni hirach heb gymalau, mae'r rhain yn tynnu oddi ar yr ardal.


Yr olygfa i'r gogledd ar hyd Heol y Bont


Capel Bedyddwyr y Graig ar Heol Dŵr

*Ardal Gadwraeth Ddeheuol*

Mae 2 lawr yn yr holl adeiladau, gydag eithriadau amlwg yng Nghapel Annibynwyr Ebenezer sydd ag uchderau lloriau uwch, a'r hen festri gyferbyn ag un llawr. Mae gan rai o'r eiddo ar wahân o faint mwy dalcenni sy'n cynyddu eu huchder. Caiff hyn ei gyfnerthu gan dopograffi'r ffordd, gydag adeiladau ar ymyl ddeheuol Heol Ebenezer wedi'u gosod yn uwch na'r ffordd.

Mae'r adeiladau ar y brif ffordd yn wynebu'r tu blaen yn bennaf, ond mae'r rheini ar y llethrau deheuol yn aml yn cynnig golygfeydd o sawl ongl oherwydd y ffyrdd a'r llwybrau llai ffurfiol sy'n eich caniatáu chi i archwilio eu hamgylchoedd.

Fel y cyfryw, gall estyniadau cefn, sydd fel arall yn ymddangos yn rhai eilaidd, feddiannu amlygrwydd ac oherwydd hyn mae angen asesu'n ofalus eu heffaith.

Yn nodweddiadol, mae'r terasau yn uniongyrchol ar y stryd gyda lled o 3 bae, gydag adeiladau ar wahân mwy wedi'u gosod y tu ôl i waliau ffiniau gyda gerddi blaen o feintiau gwahanol a lloriau caled ar gyfer parcio oddi ar y ffordd. Lle mae gerddi blaen wedi'u colli er mwyn gwneud lle ar gyfer parcio ychwanegol, mae hyn wedi cael effaith negyddol ar wedd y stryd. Ar y strydoedd eilaidd, mae mwy o amrywiaeth gyda phlotiau o feintiau gwahanol a'r rheini yn fwy amlwg lle mae adeiladau wedi'u gosod ar lethrau gan greu terasau â llefydd parcio hirach.



Llwybrau eilaidd mwy anffurfiol yn Chwarel Ffinant



Ymyl gogleddol Heol Ebenezer yn edrych tua'r dwyrain

## 5.4 Manylion nodweddiadol neu arwyddocaol

<u>*Ardal Gymeriad Canol y Dref a'r Castell*</u>

*Adeiladau mwy*

Conglfeini ar ddangos Manylion wedi'u cerfio ar gerrig
Manylion Terracotta

Parapetau uwch – plaen ac addurniadol

Lloriau gwaelod rwstig

Gwydr lliw Llusernau traddodiadol

*Manylion cyffredin a welir ar draws yr*

AG Rendrau wedi'u peintio'n lliwgar

Ffasgiâu addurniadol

Adeiladau cornel

Ffenestri bae pren

Ffenestri codi pren

Ffenestri bwaog

Ffenestri blaen siopau crwm sy'n estyn allan (i Sgwâr y Farchnad)

Bandiau – Plaen ac addurniadol

Drysau pren panelog

Pyrth

Fframiau ffenestri amlwg, gyda chonglfeini yn aml
Canopïau metel plwm ac addurniadol ar flaen siopau
Mynedfeydd cilannog

Toeau ar ongl

Simneiau

Waliau ffiniau o gerrig rwbel

Rheiliau a giatiau addurniadol

Arwyddion crog

























Philip Ling Estates


The Travelling Teapot












GOLEUDY

## Ardal Gymeriad Ddeheuol

Adeiladau mwy

Ffenestri bwaog

Talcenni uwch â ffrâm bren

Manylion cerrig wedi'u naddu

*Manylion cyffredin a welir ar draws yr AG*

Rendrau wedi'u peintio'n lliwgar

Ffenestri bae pren Un llawr a dau lawr

Ffenestri codi pren

Bandiau carreg, wedi'u rendro a phren

Drysau pren panelog

Canopïau drysau

Amgylchynau ffenestri ar ddangos, gyda chonglfeini yn aml

Toeau ar ongl

Simneiau

Waliau ffiniau o gerrig rwbel

Rheiliau a giatiau addurniadol






























**5.5 Tir Cyhoeddus; arwynebau, dodrefn stryd ac arwyddion**

Mae’r ffyrdd wedi’u tarmacio ar draws yr AG gyfan yn ogystal â phalmentydd ar bob ffordd eilaidd a Heol y Bont. Mae gan Heol y Coleg a Heol Sycamorwydden slabiau cerrig a choncrid o faint a strwythur amrywiol. Defnyddiwyd concrid ar gyfer mân atgyweiriadau yn ogystal â slabiau patrwm saethben, lle mae gwasanaethau wedi’u hintegreiddio fel arfer. Amrywiol yw cyflwr y slabiau cerrig, mae nifer ohonynt wedi cracio ac angen eu newid neu eu hatgyweirio. Dylid defnyddio slabiau cerrig pan wneir gwaith atgyweirio. Eithriad i hyn fyddai cerrig sets sydd wedi’u hymgorffori ar Heol y Castell i ddynodi lleoedd parcio a chyfuniad o darmac, slabiau cerrig, a cherrig afreolaidd ger y gofeb ryfel. Mae’r ddau o’r rhain yn gyflwyniadau cadarnhaol ac wrth i gyfleoedd godi, dylid annog gwaith atgyweirio neu ragor o ddatblygiadau i ddefnyddio’r enghreifftiau hyn.

Mae nodweddion ar ochr y ffordd wedi’u cyfyngu i ychwanegiadau cyfoes, megis arwyddion ffordd, goleuadau traffig a rhwystrau sy’n atal ceir rhag gyrru ar balmentydd. Disgwylir lefel ofynnol o seilwaith at ddibenion diogelwch a llywio ac nid yw’r lefel bresennol yn cael effaith niweidiol. Wedi dweud hynny, mae angen ystyried yn ofalus rhagor o eitemau i’w hychwanegu er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhwystro adeiladau neu olygfeydd allweddol. Mae dau eithriad i hyn, sef arwyddion y ffordd, sy’n effeithio ar osodiad Neuadd y Dref, a’r rheini sydd i’w cael ger mynedfa Heol Dŵr o Heol Ebenezer. Mae parcio ar y stryd i’w weld ar draws yr ardal sy’n amharu ar y strydlun ac yn cynyddu dominyddiaeth y rhwydwaith traffig. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn Sgwâr Emlyn, Neuadd y Dref, Heol y Bont, a’r Castell.

Mae meinciau wedi’u gosod yn Sgwâr Emlyn a Neuadd y Dref i alluogi pobl i gael seibiant ac ystyried y dreftadaeth adeiledig o’u cwmpas. Ar hyn o bryd, mae’r rhain wedi’u cyfaddawdu gan y rhwydwaith traffig sy’n amharu ar olygfeydd o’r lleoedd hyn, ac sydd â dyluniad di-drefn. Ceir nifer o feinciau yn nhir y castell ac yn y parc sy’n creu mannau hamdden mawr. Gellid gwella’r ardal drefol sy’n edrych dros y maes parcio drwy dirlunio caled a meddal o ansawdd dda. Mae nifer fawr o finiau ar dir y Castell sy’n hanfodol ar gyfer cynnal glanweithdra’r ardal, ond nid ydynt o’r un dyluniad ac maent wedi’u gosod mewn lleoedd amlwg sy’n amharu ar olygfeydd. Mae goleuadau stryd traddodiadol wedi’u gosod ar hyd Heol y Coleg a Heol Sycamorwydden sy’n ychwanegiad cadarnhaol ac yn creu amgylchedd croesawgar yn ystod y nos. Byddai strategaeth ehangach ynghylch dodrefn ar dir cyhoeddus, gan gynnwys eu dyluniad a’u lleoliad o fudd ac yn gymorth i uno’r ardal.



Arwyddion traffig, dodrefn ar dir cyhoeddus a llusernau traddodiadol yn Neuadd y Dref



Parcio ar y stryd ar Heol y Bont



Sets cerrig, slabiau a tharmac ar Heol y Castell

## 5.6 Deunyddiau a Thriniaethau Ffiniau

Yn nodweddiadol, mae triniaethau i ffiniau wedi'u cadw ar gyfer adeiladau crefyddol ac eiddo preswyl. Mae Heol y Bont yn eithriad i hyn gydag adeiladau masnachol a phreswyl sydd â ffiniau wedi'u cadw, a rheiliau metel â phatrymau gwahanol arnynt ar waliau carreg isel. Mae peth o'r rhain yn hanesyddol ond ceir eraill sydd â phatrwm cyfoes, yn amlwg yn mynd yn groes i'w gilydd. Mae waliau ffin mewn

cyflwr amrywiol ac wedi'u rendro mewn sawl lle sy'n effeithio'n negyddol ar olygfeydd o'r stryd. Byddai deunyddiau, patrymau a lliwiau ffin traddodiadol ar gyfer rheiliau yn gwella'r stryd hon a'r porth hwn i'r AG.

Mae rhwystrau pren wedi'u defnyddio yn y castell fel mesur diogelwch ar gyfer maes parcio. Er eu bod mewn ardal fwy agored wedi'i thirlunio, mae'r rhain yn nodedig am eu deunydd a'u dyluniad annhraddodiadol.

Ar y ffyrdd a'r strydoedd deheuol ceir y mwyaf o amrywiaeth ac addasiadau cyfoes i ffiniau, gyda chyfuniad o reiliau hanesyddol wedi'u cadw ar waliau carreg a waliau carreg rwbel, wrth ymyl ffens bren, concrid a gwifrau a gwaith blocs. Lle mae'r ffiniau wedi'u hintegreiddio ar derasau ar gyfer newidiadau yn y lefel, gall hyn gyfnerthu effaith y deunyddiau hyn sy'n tynnu oddi ar yr ardal, yn enwedig yn Nheras Penlan. Yn ogystal, mae ffiniau wedi'u gwaredu i greu lloriau caled sy'n creu bylchau mawr ar ymyl y stryd.

Mae Chwarel Ffinant yn unigryw yn y defnydd o ffiniau tirlun, drwy blanhigion a gwrychoedd, yn ogystal â ffensys pren. Gellid integreiddio'r defnydd o bren yn llwyddiannus yma oherwydd arddull pensaernïol yr adeiladau, ond dylai'r rhain fod ar ffurf bordiau fertigol traddodiadol yn hytrach nag ar arddull cyfoes.

Nodwyd bod y ffiniau canlynol yn enghreifftiau hanesyddol o ansawdd dda, heb eithrio eraill:

Capel Annibynwyr Ebenezer

Capel Bedyddwyr y Graig Capel

Presbyteraidd Bethel

Eglwys y Drindod Sanctaidd

Giatiau a cholofnau caeau chwarae Brenin George V




Wal ffin Eglwys y Drindod Sanctaidd



Wal ffin a giatiau i Gapel Presbyteraidd Bethel



Giatiau caeau chwarae Brenin George V




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
Blaen siopau hanesyddol
Nodwedd o'r treflun
Tŵr
Celfi stryd
Celf

### 6.1 Adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr Ardal Gadwraeth

Yn ogystal â'r adeiladau nodedig sydd wedi'u nodi yn adran 4.1, mae llawer mwy o adeiladau mawr yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad ac ansawdd yr ardal gadwraeth; gall hyn fod am sawl rheswm gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys eu cyfraniad at y treflun, ansawdd pensaernïol, nodweddion addurniadol, neu gysylltiadau hanesyddol neu ddiwylliannol.


Er bod nifer o adeiladau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal gadwraeth, mewn sawl achos mae ansawdd eu pensaernïaeth wedi'i gyfaddawdu gan addasiadau gwael. Mewn perthynas ag eiddo domestig, mae hyn yn debygol o ddigwydd drwy golli nodweddion hanesyddol megis ffenestri codi pren. Er gwaethaf hyn, mae'r adeiladau hyn yn dal i ddangos priodweddau cryf a chyfraniadau cadarnhaol y gellir eu gwella'n fawr drwy atgyweirio'r addasiadau sy'n tynnu oddi ar yr adeiladau. Byddai ceisiadau i ddad-wneud addasiadau ansensitif fel cais annibynnol neu fel rhan o ailddatblygiad yn cael eu cefnogi.

### 6.2 Adeiladau sy'n tynnu oddi ar yr Ardal Gadwraeth

Adnabyddir adeiladau negyddol fel y rheini sydd,

oherwydd eu graddfa, dyluniad manwl, neu ddeunyddiau, yn anghydweddol mewn perthynas â phrif nodwedd yr ardal gadwraeth. Gellid eu hystyried yn addas ar gyfer ail-ddatblygu cyfanwerthu, er yn rhai achosion, gall fod yn addas cadw cragen yr adeiladau hyn, gan osgoi'r carbon corfforedig sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu ar raddfa fawr.

Mae adeiladau cadarnhaol a'r rhai sy'n tynnu oddi ar yr ardal i'w gweld ar y map canlynol.




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
Adeiladau cadarnhaol
Adeiladau amharol

## 7.0 Arwyddocâd

Un o'r egwyddorion arweiniol i reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yw dealltwriaeth am arwyddocâd yr ased hwnnw, boed yn adeilad, lle, neu rywbeth mwy anniriaethol. Mae arfer dda yn awgrymu asesu arwyddocâd mewn cymhariaeth â chyfres o werthoedd sydd wedi'u nodi yn:

Gwerth Tystiolaethol; Yr olion a'r deunydd ffisegol sy'n goroesi ac yn dal i fodoli yn yr ardal

Gwerth Hanesyddol; Sut all yr ardal roi dealltwriaeth i ni am bobl, digwyddiadau neu agweddau ar fywyd yn y gorffennol?

Gwerth Esthetig; A yw'n brofiad braf crwydro'r ardal a chael profiad ohoni?

Gwerth Cymunedol; Y gwerth mae'n ei roi i'r bobl sy'n byw yn yr ardal, yn gweithio ynddi ac yn ymweld â hi

Efallai fod pob un o'r gwerthoedd hyn yn bodoli ar lefelau amrywiol, o isel i uchel, ac mae'n bwysig deall hynny. Yn ogystal, mae'n bwysig cydnabod yr eitemau hynny y mae eu perthnasedd y tu hwnt i'r categorïau hyn neu'n berthnasol i sawl categori ar lefelau gwahanol. Gall hyn godi yn arbennig wrth ystyried y nodweddion hynny sy'n creu ymdeimlad o le.

Mae'r crynodeb canlynol yn nodi'r eitemau o arwyddocâd allweddol ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Dilynir hwn gan archwiliad manylach o bob eitem ac yn y casgliad nodir sut mae pob un yn gysylltiedig â gwerthoedd tystiolaethol, hanesyddol, esthetig, a chymunedol ac ar ba lefel.

- Yn cynnwys castell Castellnewydd Emlyn, sy'n safle ag arwyddocâd cenedlaethol a lleol yn natblygiad y safle ac yn un o enghreifftiau prin o gastell carreg wedi'i adeiladu gan Gymry
- Yn cynnwys dwy heneb gofrestredig sy'n ymwneud â'r castell a'r bont
- Y patrwm stryd hanesyddol a ddatblygodd o'r anheddiad Canoloesol o gwmpas y castell ac a ymestynnodd yn ystod y 18fed a'r 19eg Ganrif
- Marchnad hynafol sy'n dal i fod yn amlwg fel canolbwynt yn y dref
- Yn cynrychioli'r cyfnod o dwf a gafwyd yn ystod y 18fed a'r 19eg Ganrif yn Sir Gaerfyrddin
- Nifer dda o enghreifftiau o adeiladau preswyl, masnachol a chyhoeddus yn dyddio'n ôl i'r 18fed a'r 19eg Ganrif, sy'n ffurfio strydlun prysur
- Strwythurau rhestredig amlwg, gan gynnwys y Bunch of Grapes Inn ac Eglwys y Drindod Sanctaidd
- Rhai blaen siopau o ansawdd dda yn dyddio'n ôl i'r 18fed a'r 19eg Ganrif
- Adeiladau cornel amlwg
- Mae nifer o breswylwyr a digwyddiadau nodedig wedi byw a digwydd yn yr AG
- Potensial archaeolegol, gan gynnwys tystiolaeth o gynllunio tref ac adeiladu castell, yn ogystal â'r ymchwil Ôl-ganoloesol i ddatblygiad tref

Cysylltiad â'r porthmyn a'r diwydiant amaethyddol sy'n dal i fodoli yn y dref Golygfeydd pellgyrhaeddol clir yn cyferbynnu yn erbyn cipolygfeydd, gan roi amrywiaeth yn y modd yr ydych yn symud drwy'r ardal ac yn ei gweld

*Castell Castellnewydd Emlyn*

Ar ôl rhannu ardal Emlyn, sefydlodd Maredudd ap Rhys y castell oddeutu 1240. Wedi'i ail-adeiladu rhywbryd cyn 1287 gyda charreg, gan ei wneud yn un o'r cestyll carreg wedi'u hadeiladu gan Gymry prin iawn a geir yng ngorllewin Cymru. Dyma yw gwreiddiau'r 'castell newydd', ac mae'n ei wahaniaethu â'r 'hen gastell' yng Nghilgerran. Mae'r castell yn heneb gofrestredig ac yn strwythur rhestredig gradd I, wedi'i leoli ar dir uchel yn y dref gyda nifer o olygfeydd i'r AG ac ohoni, wedi'i diffinio gan ei olion yn ogystal â'i dirlun o'i gwmpas, er bod yr adeiladau ar y stryd yn cuddio hyn rhag y rhan fwyaf o'r prif dramwyfeydd nes i chi symud at lan yr afon. Mae ei arwyddocâd i ddatblygiad y dref a'i brinder fel enghraifft o gastell carreg wedi'i adeiladu gan Gymry, yn ogystal â'r ardal gyffredin a hamdden mae'n ei darparu i'r dref yn arwyddocaol.

*Pont Castellnewydd Emlyn*

Wedi'i hadeiladu yn ystod y 18fed Ganrif yn lle strwythur blaenorol, mae'r bont â 3 bwa yn heneb gofrestredig ac yn rhestredig gradd II*. Y bont yw'r brif fynedfa i'r AG o'r gogledd ac yn hanesyddol mae'n bwynt croesi pwysig y Teifi a hyrwyddodd ddatblygiad y dref. Mae'n dirnod unigryw yn y dref ac yn cynnig cyfres o olygfeydd panoramig ar hyd yr afon a'r dyffryn cyfagos.

*Patrwm stryd sy'n goroesi*

Tyfodd cynllun y dref wrth sefydlu'r castell a'r tiroedd bwrdais Canoloesol a oedd yn seiliedig ar y farchnad lle mae tŵr y cloc heddiw. Ni welwyd unrhyw newidiadau mawr hyd nes diwedd ail hanner yr 20fed Ganrif, pan sefydlwyd Stryd yr Hen Graig a Heol Newydd, a thyfodd Heol Ebenezer i'r dwyrain gan gysylltu â Heol yr Orsaf. Fel y cyfryw, mae patrwm y stryd yn parhau i fod yn gyfan i raddau helaeth, ac yn sail i ddatblygiad a'r ffordd mae pobl yn symud drwy'r ardal ac yn ei phrofi, drwy'r tiroedd bwrdais cul a hir ar Heol yr Eglwys, Heol y Bont a Heol Sycamorwydden yn dal i fod yn adnabyddadwy.

*Y Farchnad*

Roedd y farchnad Ganoloesol gynt yn lle hanesyddol o ymgynnull ac yn dirnod yn y dref lle tyfodd y strydoedd ehangach. Mae neuadd y dref a'r tŵr cloc yn cadw nifer o'r nodweddion hyn, ac yn cael ei gyfnerthu gan natur linellog Heol y Coleg, gan ei wneud yn dirnod cyson wrth deithio o'r de i'r gogledd. Mae patrwm strydoedd cyfagos sy'n goroesi yn helpu i sefydlu'r ardal hon fel cyrchfan ac yn cynnal perthynas yr ardal hon gyda'r adeiladau cyfagos.

*Twf yn y 18fed a 19eg Ganrif*

Fel nifer o drefi ar draws de Cymru, roedd y 18fed a'r 19eg Ganrif yn gyfnod o dwf. Yng Nghastellnewydd Emlyn, roedd agor llwybrau masnach a sefydlu diwydiant yn y dref, yn seiliedig ar amaethyddiaeth a'r diwydiant gwlân. Mae llawer o'r hyn y gellir ei weld heddiw yn deillio o'r cyfnod hwn ac yn enghraifft dda o ddatblygiad y dref yn ystod y cyfnodau hyn.

*Pensaernïaeth yn y 18fed a 19eg Ganrif*

Mae adeiladau'r rhan fwyaf o'r AG yn deillio o'r 19eg Ganrif ac felly yn darparu prif esthetig y dref. Yn sgil twf y dref yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd adeiladau preswyl, yn ogystal â thafarndai, adeiladau cyhoeddus a chrefydd, y mae defnydd gwreiddiol rhai ohonynt yn parhau hyd heddiw ac felly yn caniatáu pobl i brofi'r dref fel y byddant wedi'i wneud yn y cyfnod hwn.

*Adeiladau rhestredig nodedig*

Mae cyfres o adeiladau rhestredig drwy gydol yr AG sydd wedi'u rhestru oherwydd eu hansawdd pensaernïol a'u deunydd hanesyddol sydd wedi goroesi. Fel y cyfryw, nid yn unig maen nhw'n cyflwyno esthetig o ansawdd ond maent hefyd yn caniatáu rhywun i ddeall sut fyddech chi wedi profi'r ardal yn y gorffennol. Lle bynnag mae deunydd hanesyddol yn goroesi, gall hyn arwain y ffordd i ail-gyflwyno manylion sydd wedi'u colli ac ysbrydoli datblygiad y dyfodol sy'n deillio o gymeriad o ansawdd yr ardal.

*Blaen siopau'r 18fed a 19eg Ganrif*

Mae nifer o flaen siopau o ansawdd yn goroesi o'r 18fed a'r 19eg Ganrif, yn ogystal ag olion sy'n parhau yn eraill. Mae'r rhain yn rhan sylweddol o gymeriad yr ardal, yn parhau fel craidd masnachol y dref.

*Adeiladau cornel amlwg*

Yn aml, caiff corneli eu dathlu yn yr AG drwy ddylunio adeiladau cornel amlwg sydd wedi'u hamlygu drwy ffasadau crom neu ffasedog. Mae'r rhain yn creu cyfres o dirnodau ar hyd gwedd y stryd yn ogystal â marcio'r fynedfa i'r strydoedd cyfagos. Mae'r rhain yn adeiladau o ansawdd yn eu hawl eu hunain, ond mae eu cyfraniad at olygfeydd a strydoedd sy'n sylweddol hefyd.

*Digwyddiadau a phobl nodedig*

Mae'r AG wedi gweld sawl digwyddiad hanesyddol nodedig, wedi bod yn gartref i sawl preswylydd nodedig ac yn cynnal cysylltiad ffisegol â nifer o'r rhain drwy strwythurau adeiledig. Mae hyn yn cynnwys; Nifer o enwau sydd ynghlwm â'r adeilad ac atgyweirio'r castell, gan gynnwys Maredudd ap Rhys a Syr Rhys ap Thomas. Ym 1904, cyrhaeddodd Evan Roberts a Sydney Evans o Gaslwchwr fel myfyrwyr ac roeddynt yn rhan annatod o hyrwyddo'r Diwygiad Methodistaidd rhwng 1904-5 yng Nghymru.

Mae preswylwyr enwog eraill y dref yn cynnwys Evan Herber Evan, y gweinidog annibynnol, Allen Raine, y nofelydd, Martyn Lloyd-Jones, yr arweinydd efengylaidd sydd wedi'i gladdu yn y dref, John Elwyn, yr arlunydd a'r addysgwr a Dill Jones, y pianydd jazz.

*Potensial archaeolegol*

Mae gan y dref botensial archaeolegol mawr, a allai helpu ein dealltwriaeth am gynllunio tref ac adeiladu castell, yn ogystal â'r ymchwil Ôl-ganoloesol i ddatblygiad tref.

*Amaethyddiaeth*

Yn ystod y 18fed Ganrif, cafwyd mwy o alw am gynnyrch amaethyddol a oedd o fantais i'r dref. Oherwydd man croesi'r afon a'r farchnad, gwnaethpwyd Castellnewydd Emlyn yn dref bwysig i borthmyn am nifer o flynyddoedd ac yn sgil hynny gadawyd gwaddol o Dafarndai a gafodd eu hadeiladu i gefnogi eu masnach. Sefydlwyd y farchnad wartheg yn y 19eg Ganrif y tu ôl i Heol Sycamorwydden, yn yr un lleoliad ag y mae'n parhau hyd heddiw, gyda marchnadoedd yn dal i gael eu cynnal bob wythnos.

*Golygfeydd sylweddol*

Mae tri math gwahanol o olygfeydd yn yr AG; y golygfeydd panoramig ehangach o dir y castell ac iddo, ar hyd yr afonydd ac mewn bylchau yn y llinell adeiladau; golygfeydd hirach, llinellog o strydoedd gyda chipolygfeydd ar hyd strydoedd ochr; a'r llwybrau mwy anffurfiol byrrach sy'n darparu llwybrau torri drwodd ac sy'n mynd o gwmpas y prif dramwyfeydd. Mae hyn yn creu amrywiaeth, diddordeb, a ffyrdd eraill o weld yr AG, gan annog pobl i ddarganfod ac archwilio.

| | Gwerth Tystiolaethol | Gwerth Hanesyddol | Gwerth Esthetig | Gwerth Cymunedol |
|---|---|---|---|---|
| Castell Castellnewydd Emlyn | Canolig | Uchel | Uchel | Uchel |
| Pont Castellnewydd Emlyn | Canolig | Canolig | Canolig | Isel |
| Patrwm stryd hanesyddol | Canolig | Canolig | Isel | Isel |
| Y farchnad | Canolig | Canolig | Uchel | Isel |
| Twf yn y 18fed a'r 19eg Ganrif | Canolig | Canolig | | |
| Pensaernïaeth yn y 18fed a'r 19eg Ganrif | Uchel | Canolig | Canolig | Canolig |
| Adeiladau ag arwyddocâd lleol a chenedlaethol | Uchel | Uchel | Uchel | |
| Blaen siopau'r 19eg Ganrif | Uchel | Canolig | Canolig | |
| Adeiladau cornel amlwg | Canolig | Canolig | Uchel | |
| Digwyddiadau a phobl nodedig | Canolig | Uchel | | |
| Potensial archaeolegol | Uchel | Uchel | | |
| Amaethyddiaeth | Canolig | Uchel | Isel | Canolig |
| Golygfeydd sylweddol | | | Uchel | Uchel |

Gwerth Isel
Gwerth Canolig
Gwerth Uchel

## 8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli

*Trosolwg strategol*

'Ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad' yw ardaloedd cadwraeth fel y nodir yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Fel y cyfryw, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) sicrhau y rhoddir 'sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal honno' (Adran 72). Mae gan CSC ddyletswydd 'o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw ran o'u hardaloedd sy'n ardaloedd cadwraeth' (Adran 71).

Gweler y tabl canlynol am grynodeb o'r prif faterion a'r bygythiadau a gafodd eu hadnabod wrth baratoi Gwerthusiad Nodweddion Ardal ar gyfer Castellnewydd Emlyn. Ynghlwm â phob eitem mae argymhellion ar gyfer ei rheoli. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ac nid yw'n eithrio eitemau ychwanegol a allai gyflwyno eu hunain yn y presennol neu wrth ddatblygu'r AG yn y dyfodol.

Mae'r materion dan sylw yn ymwneud â'r eitemau sy'n achosi niwed i ymddangosiad a/neu gymeriad yr ardal. Bygythiadau yw'r eitemau hynny nad ydynt yn achosi niwed ond gallant achosi niwed drwy addasiad ansensitif. Dylai'r eitemau hynny sydd wedi'u hadnabod fel materion gael eu hystyried fel y rheini sy'n cyflwyno bygythiad parhaus. Ochr yn ochr â phob un ceir argymhelliad rheoli i sicrhau bod cymeriad, ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ei harwyddocâd a'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol yn cael eu cadw a'u gwella. Gallai'r argymhellion hyn ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol fod yn sail i gynhyrchu dogfen bolisi fwy manwl ac ehangach ar gyfer rheoli'r ardal, wedi'i chreu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r materion wedi'u hadnabod drwy ymweliadau â'r safle, yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid, swyddogion y Cyngor Sir ac aelodau'r cyhoedd. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, o ran cadwraeth deunyddiau hanesyddol sy'n bodoli ac effaith datblygiadau newydd ar gymeriad ac ymddangosiad yr AG. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hadnabod i effeithio ar dir cyhoeddus.

Ceir enghreifftiau er mwyn dangos esiamplau da a drwg o reolaeth yr eitemau hyn i gynnig rhagor o arweiniad wrth ystyried datblygu yn yr ardal. Mae'n bwysig bod y canlynol yn cael ei ddarllen ar y cyd â'r holl ddogfennau cyfarwyddyd a pholisïau perthnasol, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033 CSC a chanllawiau cynllunio atodol.

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| **1.0** | **Golygfeydd a lleoliad** | | |
| 1.1 | Mae strydoedd ochr a chefn adeiladau yn rhan nodweddiadol o'r AG, gan gynnig cipolygfeydd oddi wrth y brif dramwyfa. Oherwydd diffyg gweledd ymddangosiadol, gall yr ardaloedd hyn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol megis taflu sbwriel, difrod i adeiladau, mannau cyhoeddus, a graffiti. Yn ogystal, gall yr ardaloedd hyn ddioddef o ddiffyg cynnal a chadw cyffredinol ar dir cyhoeddus a thriniaethau i ffiniau, sy'n erydu cymeriad yr ardaloedd hyn. Enghraifft o hyn yw'r llwybrau drwy'r meysydd parcio. | Dylid asesu'n ofalus cynigion i ddatblygu i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad ac ymddangosiad y strydoedd ochr a'r adeiladau cefn, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif dramwyfeydd. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod yr ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol. Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei gosodiad rwystro neu dynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, tuag ati neu ohoni. Mae golygfeydd a thirnodau pwysig wedi'u pwysleisio yn y gwerthusiad, ond efallai y byddai eraill yn adnabod mwy ohonynt. |  |
| 1.2 | Oherwydd natur fwy anffurfiol yr adeiladau a'r ffyrdd i'r de o'r AG, estyniadau ac ychwanegiadau a allai fod wedi'u cuddio yn aml yn eithaf gweladwy ac felly mae angen eu hystyried wrth ddeall am eu heffaith ar olygfeydd a gosodiad eiddo cyfagos. | |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 1.3 | Gall fod yn dasg anodd gwarchod golygfeydd i'r AG ac ohoni, oherwydd gall yr adeiladau hynny sydd â'r potensial i effeithio ar olygfeydd allweddol fod y tu hwnt i ardaloedd gwarchodedig megis yr AG; a dim ond ar ôl eu hadeiladu y gwelir eu heffaith lawn. Mae hyn yn gysylltiedig â chyflwyno adeiladau uchel y tu allan i'r AG, neu'r rheini ar dir uwch sy'n effeithio ar olygfeydd i'r pellter o'r tirlun tu hwnt. Er enghraifft, er bod rhannau helaeth o osodiad yr AG wedi'u gwarchod gan dai teras sy'n cau tu blaen nifer o'r prif ffyrdd, mae topograffi'r tir a'r toriadau niferus yn cynnig golygfeydd panoramig a phellgyrhaeddol mewn nifer o leoliadau yn yr AG. Mae golygfeydd pellgyrhaeddol y tŵr cloc hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at yr ardal. Er enghraifft, mae'r ganolfan hamdden i'r de o'r dref wedi effeithio ar olygfeydd o'r castell. | Dylid asesu'n ofalus datblygiadau o fewn yr ardal gadwraeth i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig ar ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol.<br>Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei gosodiad rwystro neu dynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, tuag ati neu ohoni. Mae golygfeydd a thirnodau pwysig wedi'u pwysleisio yn y gwerthusiad, ond efallai y byddai eraill yn adnabod mwy ohonynt.<br>Dylai cynigion sydd â'r potensial i effeithio a rhwystro golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, a'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, gael eu hystyried yn ofalus.<br>Mae'n bosibl y bydd angen golygfeydd wedi'u creu ar gyfrifiaduron sy'n dangos effaith cynigion er mwyn dangos yr effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal neu ei gosodiad. |  |
| **2.0** | **Dymchwel adeiladau neu ffiniau** | | |
| 2.1 | Gall defnyddio deunyddiau modern nad ydynt yn cyd-fynd â'r cyfuniad presennol o ddeunyddiau neu nad yw'n briodol eu defnyddio, erydu cymeriad hanesyddol ac arwyddocâd yr AG. Er y dylai adeilad fod yn addas i'r presennol, bydd peth gwarchodaeth o gyfuniad o ddeunyddiau gwreiddiol yr AG yn sicrhau parhad. Yn yr un modd, mae adeiladau sydd wedi'u dylunio'n wael wedi achosi niwed i'r AG; rhaid parchu nodweddion gwreiddiol dyluniadau'r 19eg Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif rhag achosi rhagor o niwed. | Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Ar y cyfan, dylai pob gwaith i adeiladau hanesyddol, addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad, ei osodiad a dylai wella ei ymddangosiad traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at Ganllaw Creu Lleoedd 2020. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 2.2 | Lle mae tai ar wahân newydd wedi'u creu i'r de o'r AG, yn aml nid yw'r rhain yn adlewyrchu meintiau plotiau traddodiadol ac mae'r berthynas rhwng yr adeiladau a'r stryd yn drawiadol o wahanol gyda'u hamgylchoedd, yn ymddangos yn rhy fawr a chreu toriad yng ngwedd y stryd. | |  |
| 2.3 | Mae plotiau ar gorneli yn byrth pwysig i'r AG ac yn gyffyrdd â ffyrdd eilaidd. Er enghraifft, yr adeiladau hynny ar gyffordd Lôn yr Eglwys a Heol Sycamorwydden. Mewn cymhariaeth, mae Heol Dŵr yn llawer gwanach, wedi'u dominyddu gan ddatblygiadau cyfoes a seilwaith traffig. | Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Pan mae adeiladau ar gorneli wedi'u hailddatblygu neu eu disodli, mae angen dealltwriaeth am eu heffaith a sut allant helpu i gryfhau'r mannau. |  |

## 3.0 Ailddatblygu

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Mae topograffi'r ardal yn golygu y gall toeau effeithio'n sylweddol ar olygfeydd a gall cyflwyno eitemau megis erialau a dysglau lloeren ar doeau erydu cymeriad, yn enwedig adeiladau sydd â'r un arddull. | Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau o'r fath. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 3.2 | Gall cyflwyno'r hyn sy'n ymddangos yn fân weithiau gael effaith gronnus ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd a gosodiad yr AG. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol:<br><br>Rendro gro chwipio<br>Newid ffenestri i rai PVC Cyflwyno gwasanaethau newydd sydd wedi'u gosod mewn lle amlwg<br>Colli nwyddau dŵr glaw haearn bwrw<br>Gosod teils coch a theils concrid yn lle llechi Colli simneiau<br>Colli drysau blaen pren panelog<br>Colli ffiniau hanesyddol megis rheiliau a waliau cerrig rwbel | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch y manylion pensaernïol nodweddiadol, megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio hefyd gynnwys cyngor ar ôl-osod adeiladau sydd eisoes yn bodoli, er mwyn gwella eu perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth.<br><br>Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau rhestredig pryd bynnag mae'n briodol. |  |
| 3.3 | Ymddengys bod gwaith anawdurdodedig i adeiladau yn broblem gyffredin, gan gynnwys gwaith megis disodli nodweddion hanesyddol fel ffenestri a drysau. Mae hyn wedi arwain at erydiad sefydlog o gymeriad rhai rhannau o'r AG. Pan mae gwaith anawdurdodedig wedi'i wneud, gall hyn annog perchnogion eiddo eraill i wneud gwaith tebyg a gall arwain at effaith gronnol ar raddfa fwy. | Pan mae'n briodol, dylai'r cyngor geisio camau gweithredu gorfodol er mwyn datrys gwaith sydd heb ei awdurdodi. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch y lliwiau nodweddiadol, manylion pensaernïol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio hefyd gynnwys cyngor ar ôl-osod adeiladau sydd eisoes yn bodoli, er mwyn gwella perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau nad oes angen caniatâd ar eu cyfer ar hyn o bryd. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 3.4 | Ymddengys nad yw safonau atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau wedi'u cynnal ar draws yr AG gan fod nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael. Oherwydd natur yr AG, mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar olygfeydd a gall arwain at golli asedau treftadaeth arwyddocaol yn rhannol neu'n llwyr. | Cyhoeddi canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio priodol ar gyfer adeiladau a'r strwythurau o fewn yr Ardal Gadwraeth. |  |

**4.0 Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol**

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Gall dwyster traffig uwch a strwythurau ffyrdd sydd heb eu rheoli'n dda gael effaith niweidiol ar gymeriad cyffredinol yr ardal, gan achosi colled mewn mannau stopio, ac ardaloedd ymgynnull a fyddai fel arall yn caniatáu eneidiau i fyfyrio a gwerthfawrogi. | Cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd am fwy o bedestreiddio a gwella strwythur ffyrdd. Bydd y Cyngor yn annog a chefnogi cynigion ar gyfer gwella'r cysylltedd i gerddwyr a beicwyr ac sy'n ymgorffori mannau cyhoeddus. |  |
| 4.2 | Mae ffyrdd a phalmentydd yn gyfuniad o darmac, gyda rhai ardaloedd o slabiau carreg ar Sgwâr y Farchnad a Heol y Castell. Wedi dweud hynny, mae'r rhain mewn cyflwr gwael ac wedi'u mân atgyweirio gan ddefnyddio deunyddiau amhriodol. | Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw'r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd. |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 4.3 | Er bod nifer o enghreifftiau cadarnhaol o ddodrefn ar dir cyhoeddus, yn enwedig ar dir y Castell, yn lleoliadau eraill mae'r rhain wedi'u gosod mewn lleoliad gwael neu wedi'u gwneud o ddeunydd a dyluniad gwael, gan effeithio'n negyddol ar olygfeydd a lleoliadau adeiladau. | Dylid dylunio arwyddion a dodrefn yn sensitif a'u hymgorffori ar y stryd. Byddai dull cydlynol yn helpu i uno cymeriad yr ardal a gwella ansawdd y tir cyhoeddus. Gellid cynhyrchu rhagor o ganllawiau ynghylch dylunio arwyddion a dodrefn stryd yn yr ardal gadwraeth, er mwyn sicrhau y cyflawnir dull cyson ac o ansawdd dda.<br><br>Mae cwmpas i gyflwyno goleuadau stryd mwy traddodiadol, deunyddiau traddodiadol ar gyfer palmentydd, a mwy o blanhigion ar y stryd ar draws yr ardal gadwraeth. |  |

## 5.0 Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Mae'r cynnydd yn y galw am barcio ar safle ac ar y stryd wedi arwain at golled yn y triniaethau ffiniau hanesyddol er mwyn ymgorffori lloriau caled a lleoedd parcio i eiddo preswyl. Gall hyn wanhau caledwch ymyl y stryd sy'n nodweddiadol o'r ardal ac amharu ar olygfeydd drwy'r AG, i mewn iddi ac allan ohoni. | Dylid cefnogi ailgyflwyno waliau ffiniau traddodiadol. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli waliau ffiniau hanesyddol sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau i waliau ffiniau hanesyddol, waeth beth fo'u huchder. |  |
| 5.2 | Mae cyflwyno parcio ar y stryd ar draws yr AG, yn enwedig lle mae'r palmentydd yn fwy cul, wedi effeithio ar olygfeydd ac wedi cael effaith negyddol ar dir cyhoeddus. | |  |

| Eitem | Mater | Rheoli | |
|---|---|---|---|
| 5.3 | Gall cyflwyno deunyddiau modern i greu ffiniau newydd a lloriau caled sy’n mynd yn erbyn yr AG neu wedi’u gwneud i ansawdd wael wanhau cymeriad ac amharu ar olygfeydd. | Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a’u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd o ran y dyluniad a’r deunyddiau a ddefnyddir. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch y manylion pensaernïol nodweddiadol, megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy’n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. |  |
| **6.0 Triniaethau i ffiniau a pharcio** | | | |
| 6.1 | Mae cyflwyno dyluniadau amhriodol i flaen siopau yn gallu cael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal. Ceir rhai enghreifftiau o flaen siopau hanesyddol yn yr AG a lle bynnag mae’r rhain yn bodoli, maent yn gwneud cyfraniad pwysig at y strydlun a gallant ysbrydoli dyluniad y dyfodol sy’n seiliedig ar dreftadaeth.<br><br>Dyma nodweddion sy’n cael effaith negyddol ar yr AG ar hyn o bryd: | Lle mae blaen siop presennol yn enghraifft dda o arddull gynharach sy’n briodol i gymeriad yr ardal a’r adeilad ei hun, dylid ei gadw a’i adnewyddu yn hytrach na’i ddisodli. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella’r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli blaen siopau ac arwyddion hanesyddol. Drwy ddisodli blaen siopau modern anghydnaws gyda dyluniadau mwy priodol, mae potensial i wella’n sylweddol adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth a dylai hyn fod yn rhywbeth i’w gefnogi.<br><br>. |  |
| | Diffyg ystyriaeth rhwng y llawr gwaelod a’r adeilad uwch ei ben. Er enghraifft, ailadrodd lled baeau, a chydnabyddiaeth o fanylion ac arddull pensaernïol yr adeilad presennol. | Dylai blaen siopau newydd adlewyrchu graddfa a chyfrannau’r prif adeilad. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio. | |
| | Ffasgiâu mawr nad ydynt yn gymesur â’r adeiladau cyfagos, neu’n llethu blaen yr adeilad ac yn cuddio manylion hanesyddol sydd wedi goroesi.. | Dylai blaen siopau newydd adlewyrchu graddfa a chyfrannau’r adeilad ei hun. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio. | |

| Eitem | Mater | Rheoli |
| --- | --- | --- |
| | Defnyddio deunyddiau cyfoes amhriodol, neu liwiau, megis Persbecs, PVC neu alwminiwm, y mae eu natur adlewyrchol yn mynd yn groes i'r cyfuniad o ddeunyddiau yn yr AG neu'r adeiladau cyfagos. | Dylai blaen siopau arall ddefnyddio deunyddiau o ansawdd a pharchu deunyddiau traddodiadol yr adeilad ei hun. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio. |
| | Colli arwyddion crog traddodiadol. | Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli arwyddion crog traddodiadol. |
| **7.0** | **Golygfeydd a gosodiad** | |
| 7.1 | Mae'r mannau gwyrdd a geir ar lannau'r afon angen gwarchodaeth barhaus, effeithiol, yn enwedig yn ystod gwaith datblygu newydd ac addasu, gan gynnwys golygfeydd ar hyd yr afon i bob glan ac ohonynt. | Dylid cynnal yn weithredol mannau gwyrdd sylweddol, a dylid mabwysiadu prosesau rheoli sy'n sicrhau bod eu diddordeb arbennig, a'u gwerth ecolegol, yn cael ei gadw a'i wella. Mae lle ar gyfer mwy o goed ac i blannu pethau eraill er mwyn gwella ymddangosiad yr ardal gadwraeth a'i photensial am fioamrywiaeth, ac mae hyn yn rhywbeth i'w annog. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal.  |
| 7.2 | Gall effaith datblygu ar osodiad Castell Castellnewydd Emlyn fod yn sylweddol tu hwnt wrth ystyried pwysigrwydd yr ardal. Mae angen ystyried a rheoli'n ofalus unrhyw ddatblygiad ar ei gyrion, neu sydd â chysylltiad amlwg ar draws yr ardal neu ohoni. | Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol.<br>Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei gosodiad rwystro neu dynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, tuag ati neu ohoni.<br>Dylai cynigion sydd â'r potensial i effeithio a rhwystro golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, a'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, gael eu hystyried yn ofalus. Mae'n bosibl y bydd angen golygfeydd wedi'u creu ar gyfrifiaduron sy'n dangos effaith posibl cynigion er mwyn dangos yr effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal a gosodiad yr asedau treftadaeth pwysig hyn. |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli |
| --- | --- | --- |
| **8.0** | **Dymchwel adeiladau a strwythurau** | |
| 8.1 | Gall dymchwel, yn llwyr neu'n rhannol, adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu ymddangosiad yr AG erydu ansawdd bensaernïol yr ardal. Gall hyn gynnwys adeiladau cyfan ar gyfer eu hailddatblygu neu ardaloedd rhannol megis simneiau, waliau ffin ac estyniadau. | Mae nifer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig teilwng sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref i gadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol.. |
| 8.2 | Gellir defnyddio cyflwr gwael adeiladau gwag neu adeiladau sydd wedi dioddef o ddiffyg cynnal a chadw i roi pwysau ar yr Awdurdod Lleol ar gyfer dymchwel ac ailddatblygu. Gall hyn arwain at gamddealltwriaeth bod ailddatblygu ar raddfa fawr yn briodol, pan allai rheolaeth ofalus o addasiadau'r dyfodol ailgyflwyno cymeriad gwreiddiol yr adeiladau hyn, atgyfnerthu'r AG, ac osgoi colli'r carbon corfforedig sydd eisoes yn gysylltiedig â'i waith adeiladu gwreiddiol. | Pan mae tystiolaeth o esgeulustod bwriadol i ased treftadaeth, neu ddifrod iddo, ni ddylid ystyried cyflwr gwael yr ased mewn unrhyw benderfyniad. Mae nifer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig teilwng sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref i gadw'r rhain. Os cynigir dymchwel adeilad, dylid rhoi ystyriaeth i'r cylch carbon oes, gan ystyried hefyd carbon corfforedig yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach na rhoi adeilad newydd yno. Dylid annog gofalu ac ailddefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, drwy gynnal a chadw, rheoli a mesurau effeithiolrwydd ynni gwell. Dylid annog ailgyflwyno nodweddion traddodiadol drwy greu canllaw dylunio sy'n arbennig ar gyfer yr AG. Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli |
|---|---|---|
| **9.0 Ailddatblygu** | | |
| 9.1 | Pan mae cysondeb yn ymwneud ag uchder lloriau, màs, deunydd, manylion pensaernïol, maint y plot a'r berthynas â'r stryd, gall newidiadau i hyn achosi unrhyw wyriadau a all gael effaith uniongyrchol, yn enwedig lle ceir golygfeydd hir. Pan mae'r manylion hyn yn amrywio rhwng y ddwy ardal gadwraeth, mae angen cydnabod y priodweddau unigryw hyn. | Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw yr ardal gadwraeth, ei hardaloedd cymeriad a'i lleoliad, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Ar y cyfan, dylai pob gwaith i adeiladau hanesyddol, addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad, ei osodiad a dylai wella ei ymddangosiad traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at Ganllaw Creu Lleoedd 2020 |
| 9.2 | Mae nifer o eiddo gwag, yn aml mewn cyflwr gwael, yn enwedig blaen siopau a allai roi pwysau ar yr Awdurdod Lleol o ran ailddatblygu. | Byddai ystyried rhoi defnydd yn y cyfamser yn galluogi i siopau ac adeiladau gael eu cynnal a'u defnyddio pan maent yn wag. |
| **10.0 Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol** | | |
| 10.1 | Gall colli nodweddion megis simneiau a chyflwyno dormeri newid yn sylfaenol y golygfeydd o'r toeau a chael effaith sylfaenol ar olygfeydd. Mae hyn yn cynnwys adeiladu estyniadau i fyny ar adeiladau i roi rhagor o uchder i loriau uwch. | Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch manylion pensaernïol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal er mwyn cynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth.<br><br>Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau rhestredig pryd bynnag mae'n briodol. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli nodweddion traddodiadol sy'n cyfrannu at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. |
| 10.2 | Gall y defnydd amhriodol o liwiau gael effaith niweidiol ar olygfeydd a chymeriad stryd. | Dylai canllawiau dylunio anwl gynnwys lliwiau awgrymedig sy'n addas ar gyfer yr ardal, er mwyn sicrhau cysondeb o ran cymeriad ac ansawdd. |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli |
|---|---|---|
| **11.0 Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd** | | |
| 11.1 | Mae mannau gwyrdd a choed yn darparu seibiannau yn yr amgylchedd adeiledig a gall eu colli gael effaith niweidiol sylweddol ar gymeriad yr ardal. | Mae lle ar gyfer mwy o goed ac i blannu pethau eraill er mwyn gwella ymddangosiad yr ardal gadwraeth a'i photensial am fioamrywiaeth, ac mae hyn yn rhywbeth i'w annog. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal. |
| 11.2 | Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o hanes y dref a phryd bynnag mae'r rhain yn goroesi, dylid eu cynnal. | Gellid cynhyrchu rhagor o ganllawiau ar ddylunio arwyddion yn yr Ardal Gadwraeth ac ymgorffori enwau lleoedd ar gyfer enwau ffyrdd a lleoedd. |
| **12.0 Tirlun** | | |
| 12.1 | Gall y defnydd o goed, fflora a ffawna estron fynd yn groes i'w hamgylchfyd os cânt eu dewis heb ystyried eu cyd-destun. | Dylid annog y defnydd o goed, fflora a ffawna pan gaiff cynlluniau tirlunio meddal eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol. |
| **13.0 Dyluniad blaen siopau** | | |
| | Gall cyflwyno gweithgareddau masnachol i hen adeiladau preswyl achosi niwed drwy; | Byddai unrhyw gynnig i newid defnydd adeiladau presennol yn gofyn ystyriaeth ofalus o'r effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau dilynol i fynediad ar gyfer danfoniadau, parcio, a gwasanaethau allanol, megis unedau cyddwyso ac offer eraill. Dylid annog defnydd preswyl parhaus ar strydoedd sydd â natur o dai preswyl yn draddodiadol. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio. |
| | Cyflwyno arwyddion nad ydynt yn ymateb i gyfrannau neu strwythur yr adeilad. | |
| | Cyflwyno ffenestri blaen siopau sy'n llethu graddfa ddomestig yr adeilad ac yn arwain at golli deunydd gwreiddiol. | |

| Eitem | Bygythiad | Rheoli |
|---|---|---|
| | Gall rhannu perchnogaeth achosi dryswch mewn perthynas â chynnal a chadw ac arwain at ddirywiad cyffredinol yn yr adeilad. | |
| | Cyflwyno caeadau diogelwch allanol a all effeithio'n sylweddol ar ymddangosiad allanol adeilad ac ychwanegu at yr edrychiad o ddiffyg diogelwch. | Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn caeadau diogelwch amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac ymddangosiad traddodiadol yr ardal. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio, gan gynnwys sut mae gwella diogelwch mewn modd addas. |
| | Cyflwyno cysgodlenni neu ganopïau ar raddfa amhriodol, yn aml mewn deunyddiau anhraddodiadol, sy'n torri rhythm yr adeiladau teras a llinell yr adeiladau. | Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac ymddangosiad traddodiadol yr ardal. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaen siopau ac arwyddion i ddangos arfer orau o ran deunyddiau a dylunio, gan gynnwys sut mae gwella diogelwch mewn modd addas a sut mae ymgorffori cysgodlenni a chanopïau. |

## 14.0 Cyffredinol

13.1 Archaeoleg

Wrth ystyried unrhyw gynnig am ddatblygiad sylweddol, dylid asesu'n broffesiynol yr effaith bosibl ar olion archaeolegol a chymryd cyngor o ran y ffordd orau o'u cadw a'u gwarchod. Dylid hefyd ystyried sut allai defnyddiau blaenorol y safle, ei hen strwythurau ac adeiladau ddylanwadu ar ddylunio elfennau newydd.

13.2 Yr Argyfwng Hinsawdd

Dylid ystyried yn ofalus cynigion i ôl-osod er mwyn gwella effeithiolrwydd ynni i sicrhau cydnawsedd â deunyddiau adeiladu traddodiadol, ymarferoldeb ac arwyddocâd.

Os cynigir dymchwel adeilad, dylid rhoi ystyriaeth i'r cylch carbon oes, gan ystyried hefyd carbon corfforedig yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach na rhoi adeilad newydd yno.

Dylid annog gofalu ac ailddefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, drwy gynnal a chadw, rheoli a mesurau effeithiolrwydd ynni gwell..

13.3 Gweithredu ac Adolygu

Mae angen glynu wrth yr holl ddyletswyddau statudol dan y Deddfau Cynllunio yn sgil dynodiad ardal gadwraeth. Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r argymhellion a geir yma a ffurfio cynllun rheoli ffurfiol (bwriedir i'r adroddiad hwn ffurfio sylfaen hwn) i'w adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y polisïau yn parhau i fod yn ddefnyddiol a pherthnasol. Dylai'r Cyngor geisio ymgymryd ag astudiaethau perthnasol eraill a chreu rhagor o arweiniad fel y nodwyd yma, pan mae'r adnoddau ar gyfer hyn ar gael.

13.4 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth

Dylid darparu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gan ymgeiswyr, lle ystyrir bod cynnig yn effeithio ar yr ardal gadwraeth (boed yn y ffin neu ei osodiad) neu ased treftadaeth oddi mewn iddi.

# 9.0 Cyfleoedd

Mae'r cyfleoedd canlynol yn ymwneud â phosibiliadau adnabyddedig ar gyfer dad-wneud niwed, gwella'r ardal a gwerthfawrogiad ohoni, neu reoli datblygiad. Mae'r rhain wedi'u hadnabod drwy baratoi'r ddogfen hon a'r adran materion, bygythiadau a rheolaeth flaenorol. Adnabyddir rhagor o gyfleoedd yn adran 5, ond gweler isod y rhai y cydnabyddir yn eitemau a fyddai o fudd i'r AG neu dan reolaeth y Cyngor Tref neu Sir.

1. Mae cyffordd Heol Dŵr a Stryd yr Hen Graig yn borth allweddol i graidd y dref gyda nifer sylweddol o adeiladau arwyddocaol ar Heol Dŵr, y mae un ohonynt yn gyn-ysgol ramadeg sydd wedi'i lleoli ar y gyffordd hon. Wedi dweud hynny, mae estyniadau cyfoes i du cefn Heol Dŵr sy'n mynd yn groes i gymeriad yr AG, sef arwyddion stryd, palmentydd a ffyrdd tarmac ac ardal fach o wyrdd, yn effeithio ar osodiad yr adeilad hwn a'r gyffordd. Byddai ailddatblygu'r rhain gyda thirlunio meddal o ansawdd, deunyddiau ffiniau ac arwyddion o faint priodol ac wedi'u gosod yn lleoedd priodol o fudd i wella ansawdd y gyffordd a gwella gosodiad y cyn-ysgol ramadeg a Heol Dŵr yn gyffredinol.
2. Mae'r llwybrau o'r meysydd parcio i'r dref yn aml yn rhoi argraff gyntaf o'r dref i ymwelwyr. Wrth ddyrchafu'r llwybrau hyn drwy wella'r tir cyhoeddus a gwaith celf neu fyrddau dehongli o bosibl, byddai'r profiad hwn yn cael ei wella ac yn pwysleisio bod rhywun yn mynd i le o ansawdd arbennig.
3. Mae cyflwr yr adeiladau a ffiniau Heol y Bont yn amlwg yn is na'r rheini yng ngweddill canol y dref. Fel mae'r cyfle yn codi, gallai atgyweirio ac ailgyflwyno ffiniau traddodiadol mewn arddull a lliw cydlynol wella'r porth allweddol hwn i'r dref.



2




1



3


4. Mae Neuadd Emlyn ar Heol y Castell mewn cyflwr gwael ac mae sawl addasiad ansensitif wedi'i wneud iddo. Fel adeilad mawr ar y brif dramwyfa i'r Castell, mae hyn yn effeithio ar olygfeydd i'r Castell, ac ohono, ac felly byddai ei atgyweirio yn sensitif o fudd i'r rhan arwyddocaol hon o'r AG.
5. Byddai dull cydlynol i ddodrefn ar dir cyhoeddus i gynnwys dyluniad a lleoliad yn helpu i uno'r ardal a sicrhau lle mae elfennau yn cael eu cyflwyno, bod hynny'n cynyddu mwynhad yr ardal ac nid yw'n tynnu oddi ar olygfeydd neu adeiladau allweddol.
6. Mae'r ardal drefol sy'n goruchwylio'r parc yn un o'r lleoedd trefol prin ar gyfer ymgynnull yn yr AG. Wedi'i tharmacio ar hyn o bryd, gellid gwella'r ardal drwy dirlunio caled a meddal o ansawdd dda a allai annog rhagor o ymwelwyr i Lôn yr Eglwys, ac ymgysylltu â'r adeiladau sylweddol sydd i'w cael yma.
7. Er bod carreg wedi'i defnyddio yn rhai ardaloedd yng nghanol y dref, byddai rhaglen ail-wynebu cynhwysfawr fel mae'r cyfle yn codi o fudd mawr i wella'r tir cyhoeddus yma.


4


5


6


7




Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn

Maes cyfle


Panasonic
J.D.R. THOMAS
Technics
Y GOLEUDY
CARDIGAN BAY BROWNIES
ESTATE AGENTS

# Atodiadau

**Cyhoeddiadau**

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (legislation.gov.uk)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 well-being-of-future-generations-wales-act-2015-the-essentials.pdf (llyw.cymru)

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021 Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 (llyw.cymru)

Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017 Nodyn Polisi Cynllunio Cymru 24 Mai 2017 (llyw.cymru)

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017 Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru (llyw. cymru)

Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy Dogfen Egwyddorion Cadwraeth CY (llyw. cymru)

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, Medi 2021 Microsoft Word - Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol DOC TERFYNOL (llyw.cymru)

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021 Adroddiad.pdf (llyw.cymru)

**Gwefannau**

Visit Newcastle Emlyn, 2021, https://www.visitnewcastleemlyn.co.uk/explore/history/ 1-5 Mai 2022

Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn, 2022, https://www.newcastleemlyntowncouncil.co.uk/ncetowncouncil/town-history 1-5 Mai 2022

Castellnewydd Emlyn ac Adpar, 2021, https://web.archive. org/web/20100306040119/ http://www.newcastle- emlyn.com/local-history 1-5 Mai 2022

Cardigan Bay Properties, 2021, https://cardiganbayproperties.co.uk/cy/2021/01/31/discover-newcastle-emlyn-castell-newydd-emlyn/ 1-5 Mai 2022

Newcastle Emlyn History Society, 2016, https://web. archive.org/web/20100429072948/http://www.newcastleemlyn.info/ 1-5 Mai 2022

British Listed Buildings, Dyddiadau amrywiol, British Listed Buildings - History in Structure, 1 -5 Mai 2022

The National Library of Wales, 2021, Mapiau Degwm Cymru, Mapiau Degwm Cymru - Hafan (llyfrgell.cymru) 1-5 Mai 2022

The National Library of Scotland, 2021, Mapiau OS â dyddiadau gwahanol, Map Finder - with Marker Pin - Map Images - National Library of Scotland (nls.uk) 1-5 Mai 2022

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, 2021, Castellnewydd Emlyn https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/ uploads/historic-towns-2020/EPRN_125663_NEWCASTLE_EMLYN.pdf 1- 3 Mai 2022


British Property Foundation, 2017, Heritage Works: A toolkit of best practice in heritage regeneration, BPF - Heritage Works: A toolkit of best practice in heritage regeneration, 26 Mawrth 2022


## Atodiad II: Geirfa

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| A4D | Cyfarwyddyd Erthygl 4 | Mesur, a gychwynnir gan awdurdod lleol, lle mae materion gwaith a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan ddeddfwriaeth gynllunio Gorchmynion Datblygu Cyffredinol yn cael eu dwyn o dan reolaeth yr adran gynllunio. |
| BAR | Adeilad Mewn Perygl | Cofrestr adeiladau, a gynhelir gan awdurdodau lleol (a gefnogir gan Historic England) sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau sydd mewn perygl o ddadfeilio, dymchweliad neu golled arall. Fel arfer mae'n nodi rhywfaint o risg ac yn nodi'r math o gamau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i unioni'r broblem. |
| AG | Ardal Gadwraeth | Ardal, a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, y mae ei chymeriad yn ddymunol i'w chadw neu wella |
| GAG | Gwerthusiad Ardal Gadwraeth | Adroddiad sy'n asesu cymeriad ac effeithiolrwydd yr AG ar adeg benodol |
| CPO | Gorchymyn Prynu Gorfodol | Offeryn cyfreithiol ar gyfer prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol neu asiantaeth y llywodraeth ar gyfer diben ddiffiniedig ac am gyfradd deg |
| | Ffasgia | Y gofod ble mae arwydd yn cael ei arddangos, fel arfer uwchben siop |
| CSC | Cyngor Sir Caerfyrddin | |
| GDO | Gorchymyn Datblygu Cyffredinol | Gorchymyn, o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol, sy'n nodi'r dosbarthiadau o ddatblygiadau sy'n 'ddatblygiad a ganiateir' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol arnynt fel arfer |
| | Cadw | Y sefydliad sy'n gyfrifol am warchod adeiladau, strwythurau, tirwedd a safleoedd treftadaeth hanesyddol yng Nghymru |
| ARh | Adeilad Rhestredig | Adeilad o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol a warchodir trwy ei gynnwys ar restr o adeiladau o'r fath a gynhelir gan Cadw. Bydd yr adeilad yn cael ei raddio – gradd I am y pwysicaf, Gradd II* ar gyfer y pwysicaf nesaf neu radd I am y gweddill sy'n cynnwys tua 95% o'r cyfanswm |
| | Llain Tir Bwrdais | Mae llain tir tir bwrdais fel arfer yn cael ei nodweddu fel llain hir â wal, gardd neu iard, y tu ôl i adeilad, y mae ei flaen yn wynebu un o'r strydoedd hŷn mewn tref neu ddinas â tharddiad canoloesol |

| Talfyriad | Term ffurfiol | Diffiniad |
|---|---|---|
| LBC | Caniatâd Adeilad Rhestredig | Cymeradwyaeth i wneud gwaith ar adeilad rhestredig (a fyddai fel arall yn drosedd) a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol ac ar ôl ymgynghori â rhestr benodol o gyrff a sefydliadau amwynder cenedlaethol a lleol |
| CLI | Cynllun Lleol | Dogfen a baratowyd gan neu ar ran yr awdurdod lleol yn nodi ei bolisi cynllunio am gyfnod penodol i ddod; bydd yn cynnwys polisi ynghylch yr amgylchedd naturiol, cadwraeth, priffyrdd, datblygu adeiladau ymhlith ystod eang o bynciau eraill. |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru | Polisi cenedlaethol yn amlinellu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio |
| Deddf P(LBCA) 1990 | Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 | Deddf gydgrynhoi a ddaeth â darnau amrywiol blaenorol ynghyd o ddeddfwriaeth mewn un Ddeddf Seneddol |
| | Hysbysiad Atgyweirio | Hysbysiad a gyhoeddwyd o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf P(LBCA) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol i berchnogion neu feddianwyr wneud atgyweiriadau brys i adeiladau rhestredig |
| Sn215 | Hysbysiad Adran 215 | Hysbysiad o dan y deddfau cynllunio y gall awdurdod lleol ei roi i berchnogion neu ddeiliaid ar gyfer tacluso tir neu adeiladau y bernir eu bod yn niweidiol i amwynder ardal |
| SPG | Canllawiau Cynllunio Atodol | Dogfen sy'n nodi polisi penodol i safle neu ardal y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio perthnasol. Bydd cynnwys y ddogfen wedi'i baratoi gyda'r bwriad penodol hwn a bydd angen ei fabwysiadu'n ffurfiol fel un o'i gyfres o ddogfennau cynllunio gan yr awdurdod dan sylw |
| TPO | Gorchymyn Cadw Coed | Gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i warchod coed penodol, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder. Mae gorchymyn yn gwahardd torri, tocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol a dinistrio coed yn fwriadol heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol |

# Atodiad III: Mapiau





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
- Adeiladau cadarnhaol
- Adeiladau amharol

Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn

Cyfraniad Adeiladau




G

0 25 50 150

Graddfa m


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
- Adeiladau rhestredig Gradd I
- Adeiladau rhestredig Gradd II*
- Adeiladau rhestredig Gradd II
- Henebion Cofrestredig
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Adeiladau a strwythurau pwysig heb eu rhestru

Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn

Map o'r Dynodiadau




G

0 25 50 150

Graddfa m


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
- Mannau gwyrdd
- Parciau
- Gerddi preifat/lled-breifat
- Coed
- Grŵp o goed

Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn

Coed, Mannau Gwyrdd, Parciau a Gerddi




G

0 25 50 150

Graddfa m


© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377


ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
- Maes cyfle

Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn

Map Cyfleoedd





© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
- Blaen siopau hanesyddol
- Nodwedd o'r treflun
- Tŵr
- Celfi stryd
- Celf

Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn

Llecynnau Cyhoeddus




G

0 25 50 150

Graddfa m

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn
- Mannau gwyrdd cadarnhaol / wedi'u tirlunio / coed
- Toeau arwyddocaol
- Y prif dirnod / adeiladau allweddol
- Golygfeydd pwysig o'r dirwedd
- Golygfeydd pwysig o'r stryd
- Golygfeydd caeëdig
- Golygfeydd terfynedig
- Golygfeydd allwyredig

Ardal Gadwraeth Castellnewydd Emlyn

Dadansoddi Gofodol

## Atodiad IV: Adolygiad o'r

Fel rhan o baratoi'r Gwerthusiad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli hwn, ymgymerwyd ag adolygiad o ffin yr Ardal Gadwraeth i ddeall y rhesymeg dros ddynodi'r ardal, a pha un ai a yw datblygiad ers ei dynodi'n wreiddiol yn golygu y dylid ail-lunio'r ffin ai peidio. Ymgymerwyd â'r adolygiad hwn drwy gyfres o ymweliadau safle, yn ogystal ag ymchwil ddesg ac ymgynghori â'r Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Cesglir na ddylid gwneud unrhyw addasiadau i'r ffin gyfredol.

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

- Awdurdodau cynllunio lleol i bennu ardaloedd y mae'n ddymunol eu gwarchod a'u gwella, a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth (adran 69 [1])
- Awdurdodau cynllunio lleol i adolygu eu gweithgareddau blaenorol yn yr ardal hon, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth cyfredol, ac ychwanegu mwy o ardaloedd cadwraeth (section 69 [2])
- Awdurdodau cynllunio lleol i ffurfio a chyhoeddi cynigion ar gyfer gwarchod a gwella ardaloedd cadwraeth ac ymgynghori'r cyhoedd mewn perthynas â'r ardal dan sylw, ac ystyried y safbwyntiau sy'n cael eu mynegi (adran 71 [1 a 2])
- Fel rhan o waith awdurdodau cynllunio lleol, bydd swyddogaethau cynllunio yn yr ardal gadwraeth yn 'talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal honno' (adran 72 [1])

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus, y mae'n rhaid iddynt sefydlu a chyhoeddi amcanion wedi'u dylunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Un o'r nodau hyn yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, wedi'i ddisgrifio fel 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg'. Mae cysylltiadau clir rhwng y ddyletswydd benodol i warchod neu wella ardaloedd cadwraeth, fel sy'n ofynnol drwy'r Ddeddf 1990, a'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo a gwarchod treftadaeth, fel y nodir yn Neddf 2015. Gall ardaloedd cadwraeth sy'n cael eu gwarchod a'u gwella'n briodol wella ansawdd bywyd a llesiant pawb.

Polisi Cynllunio Cymru Chwefror 2021

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol sy'n adnabyddus fel asedau hanesyddol. Ystyrir ardaloedd cadwraeth yn asedau hanesyddol.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.6 bod amcanion penodol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amgylcheddau hanesyddol yn ceisio: [...] gwarchod neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.14 y dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad. Mae angen rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn diogelu neu wella eu cymeriad a'u golwg a gwireddu eu gwerth treftadaeth yn llawn. Dylai awdurdodau cynllunio lunio eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth hen a/neu newydd a'u ffiniau. Gall paratoi gwerthusiadau a chynlluniau rheoli ar gyfer ardaloedd cadwraeth gynorthwyo awdurdodau cynllunio i arfer eu swyddogaethau rheoli datblygiadau.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.15 bod rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol. Dan amgylchiadau eithriadol, gellir diystyru'r rhagdybiaeth o blaid gwaith datblygu yr ystyrir ei fod yn ddymunol ar sail buddion cyhoeddus.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.16 y gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu nad yw'n amharu arnynt. Gellir ystyried mesurau lliniaru hefyd, a allai olygu bod datblygiad arfaethedig yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol mewn ardal gadwraeth.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.17 bod dynodi ardaloedd cadwraeth yn golygu y gellir rheoli'r gwaith o ddymchwel adeiladau anrhestredig o fewn yr ardaloedd hyn yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeiladau yn rhannol. Mae'r gweithdrefnau fwy neu lai yr un peth â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Wrth ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach y gwaith dymchwel ar yr ardal o amgylch yr adeilad ac ar ddiddordeb pensaernïol, archaeolegol neu hanesyddol yr ardal gadwraeth yn gyffredinol. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylid profi cynigion yn unol ag arfarniadau o ardaloedd cadwraeth, lle maent ar gael.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.29 y dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisïau penodol i'r ardal leol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid iddynt fod yn unigryw ac ymwneud yn unig â'r elfennau treftadaeth hynny sy'n cael eu gweld fel ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol. Gall gynnwys polisïau penodol i'r ardal leol yn ymwneud â:
- Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliad. Gallant hefyd gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag

ailddefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/neu adeiladau hanesyddol penodol, a allai fod o gymorth i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac ymestyn ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes, ac ni ddylent gynnwys datganiadau neu gynigion manwl ar gyfer ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylai'r broses o asesu, diffinio'n fanwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol gael ei dilyn ar wahân i'r cynllun datblygu

- Nodir ym Mharagraff 1.36 bod gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyrraeth o'r fath yn dymchwel beirniadaeth awdurdod cynllunio ar fater sydd, yn y lle cyntaf, yn gyfrifoldeb iddo a gellir ei gyfiawnhau dan amgylchiadau eithriadol. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai camau o'r fath gael eu hystyried dim ond lle bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio pwerau diofyn Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Nodir y canlynol yn y ddogfen hon:

- Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth a nhw sy'n cadw'r wybodaeth ddiffiniol am eu ffiniau.
- Gall awdurdod cynllunio lleol ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ategol i'w helpu i gyflawni polisïau yn y cynllun datblygu lleol. Gall canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pynciau fel:

Cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth.

- Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adnabod ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu olwg a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Dylent adolygu eu hardaloedd o bryd i'w gilydd i ystyried a oes angen rhagor o ddynodiadau neu adolygiadau. Yn ogystal, mae gan Weinidogion Cymru rymoedd i ddynodi ardaloedd cadwraeth ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Grym wrth gefn yw hwn sy'n cael ei ddefnyddio yn achosion eithriadol, er enghraifft, pan mae gan ardal ddiddordeb sy'n fwy na diddordeb lleol.

6.2 Mae dynodi ardal gadwraeth yn rhoi'r sylfaen ar gyfer polisïau sydd wedi'u dylunio i gadw neu wella pob agwedd ar gymeriad neu olwg sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal: gall hyn gynnwys patrwm yr anheddiad a threfn y lle a'r llwybrau, yn ogystal ag arddull a math yr adeilad, a'r defnydd o ddeunyddiau a manylion. Gall seilwaith gwyrdd fod o bwys hefyd, ond nid yw dynodi rhywle yn ardal gadwraeth yn ffordd briodol o warchod nodweddion y tirlun, ac eithrio pan maent yn ffurfio rhan annatod o'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

6.3 O bryd i'w gilydd, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli. Yn unol ag arfer orau, dylid gwneud hyn bob pump i ddeg mlynedd. Mae'n arfer dda i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllawiau cynllunio ategol. Rhaid iddynt hefyd roi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella ardaloedd cadwraeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Dan amgylchiadau eithriadol lle nad yw rhan o ardal gadwraeth, neu ardal gadwraeth gyfan, bellach yn cynnwys y diddordeb arbennig a arweiniodd at ei dynodi, gellir addasu neu ganslo'r dynodiad hwnnw.

6.4 Gwerthusiad ardal cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer unrhyw gynnig i warchod neu wella. Mae'n cynnig darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn adnabod cyfleoedd a blaenoriaethau gweithredu a all roi sylfaen am gynllun rheoli mwy manwl. Dylai gynnwys dadansoddiad o'r polisi ac anghenion rheoli'r ardal, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd rheolyddion cynllunio cyfredol, yr angen am warchodaeth atodol ac adnabod ffyrdd o warchod neu wella cymeriad arbennig. Bydd sylfaen fwy cadarn i bolisïau'r cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd cadwraeth ac yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol i nodau hirdymor os yw cymeriad pob ardal gadwraeth wedi'i ddiffinio ac os yw'r polisïau er mwyn ei gwarchod a'i gwella wedi'u nodi'n fanwl mewn cynllun rheoli. Gellir hefyd ystyried a ddylid cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn yr ardaloedd hyn.

6.5 Oherwydd eu natur, mae gan ardaloedd cadwraeth nifer o randdeiliaid a dylai'r trefniadau rheoli gynnig cyfleoedd i gyfrannu at y cynllun a gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â'r broses honno. Bydd cynigion i warchod a gwella ar eu mwyaf effeithiol pan mae pob adran yn y cyngor yn deall arwyddocâd dynodi a gweithio gyda'n gilydd. Felly, awgrymir yn gryf dull gweithredu gyda thîm datblygu sy'n cydnabod cyfraniad adrannau eraill, megis priffyrdd a thai.

6.6 Gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r cynllun datblygu lleol fod yn glir y bydd y cynigion i ddatblygu yn cael eu beirniadu mewn perthynas â'u heffaith ar gymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth fel y nodir yn y ddogfen werthuso a rheoli. Bydd cynigion datblygu penodol mewn ardal gadwraeth, gan gynnwys darparu un neu fwy o dai preswyl, darparu adeilad neu adeiladau y mae'r arwyneb llawr a fydd yn cael ei greu yn sgil y datblygiad yn mesur 100 metr sgwâr neu fwy, angen datganiad dylunio a mynediad.

6.7 Mae nifer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canolfannau masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol, bydd pwyslais ar reolaeth reoledig a chadarnhaol o newid sy'n annog bywiogrwydd economaidd a chynnwrf cymdeithasol a diwylliannol a chydsynio â phensaernïaeth arbennig yr ardal ac ansawdd hanesyddol. Mae nifer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal, neu'n tynnu oddi ar yr elfennau hynny; dylai eu disodli fod yn ysgogiad i ddyluniad dychmygol, o ansawdd dda ac yn gyfle i wella'r ardal.

6.8 Un o ddibenion system rheoli hysbysebu yw annog yr arddangosiad o hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at ymddangosiad yr amgylchedd. Rhesymol yw disgwyl mai dyletswydd yr awdurdod cynllunio lleol yw talu sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth a fydd yn arwain, yn ymarferol, at safonau mwy manwl pan mae'r awdurdod yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath ai peidio.

6.9 Yn ardaloedd cadwraeth, mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio lleol fod yn hyblyg wrth ddefnyddio eu grymoedd dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, oherwydd bod nifer o ardaloedd yn cynnwys safleoedd manwerthu a masnachol yn amrywio o siopau bach i ganolfannau masnachol llewyrchus. Mae hysbysebu yn yr awyr agored yn hanfodol ar gyfer gweithgarwch masnachol. Fel arfer, bydd llwyddiant busnesau lleol yn helpu perchnogion a thenantiaid safleoedd masnachol i gynnal cyflwr da adeiladau a sicrhau eu bod yn ddeniadol.

6.10 Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth er mwyn dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, er bod rhai eithriadau. Yn y cyd-destun hwn, rheol y llysoedd yw bod dymchwel yn golygu tynnu adeilad i lawr nes ei fod wedi'i ddinistrio'n llwyr neu i raddau sylweddol iawn o leiaf. Felly, gallai gwaredu adeilad cyfan ac eithrio ei ffasâd gyfrif fel dymchwel.

6.11 Gall Gweinidogion Cymru bennu nad oes angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer disgrifiadau penodol o adeiladau ac mae Gweinidogion Cymru wedi nodi nad yw caniatâd Ardal Gadwraeth yn ofynnol ar gyfer rhai gweithiau. Mae'r gweithiau hyn yn cynnwys dymchwel adeilad sydd â chyfanswm cynnwys ciwbig nad yw'n fwy na 115 metr ciwbig a dymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n llai nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu'n llai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Golyga hyn na fydd nifer o ddarnau o waith sy'n cynnwys dymchwel deunydd rhan o adeilad yn cael eu hystyried yn waith dymchwel ac ni fydd angen caniatâd ardal gadwraeth i'w gwneud.

6.12 Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd ceisiadau am Ganiatâd Ardal Gadwraeth yn gofyn datganiad effaith ar dreftadaeth, a ddylai egluro pam mae'r dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol ochr yn ochr ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

6.13 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylai cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath gael eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf eang â chynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler 5.15). Yn achosion, lle ystyrir bod adeilad yn gwneud mân

gyfraniad neu dim cyfraniad o gwbl, fel arfer bydd awdurdod cynllunio lleol angen gwybodaeth lawn ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer y safle ar ôl dymchwel. Ni ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddefnyddio'r safle oni bai bod yr ailddatblygiad ei hun yn annymunol. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol yr hawl i ystyried egwyddorion eang datblygiad arfaethedig, megis ei raddfa, maint, a màs, wrth bennu a ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.

6.14 Gall fod yn briodol cyflwyno cyflwr ar roi caniatâd i ddymchwel fel nad yw'n digwydd nes y ceir caniatâd cynllunio llawn ac ar ôl gwneud contract ar gyfer cyflawni'r datblygiad.

6.15 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y grym i warchod coed a choetiroedd drwy wneud gorchmynion cadw coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion cadw coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cynnig torri i lawr, difrigo neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod yr amser hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid amddiffyn y goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.

6.16 Wrth ystyried a ddylid ymestyn amddiffyniad i goed mewn ardaloedd cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol ac amwynder coed. Mewn rhai achosion, gallai plannu coed newydd neu ail-blannu fod yn ddymunol lle byddai hynny'n gyson â chymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

6.17 Mae gan orfodaeth rôl allweddol i'w chwarae o ran gwarchod ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried dull gweithredu mwy rhagweithiol, gan gynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau rheolyddion rheoleiddio, yn hytrach nag ymchwilio pan gyflwynir cwyn ffurfiol. Bydd dull cadarnhaol a gweithredol o orfodi yn helpu i leihau'r nifer o droseddau a sicrhau gwelliannau parhaus yn yr ansawdd amgylcheddol.

6.18 Mae gan ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol neu fethiant awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad ynghylch caniatâd i ardal gadwraeth. Gellir gwneud apêl dan yr amgylchiadau canlynol: Pan mae awdurdod cynllunio lleol: Yn gwarchod cais am ganiatâd ardal gadwraeth; Yn caniatáu cais am ganiatâd ardal gadwraeth gydag amodau; Yn gwrthod cais i amrywio neu ryddhau amodau sydd ynghlwm â chaniatâd ardal gadwraeth; Yn gwrthod cais am ganiatâd sy'n ofynnol drwy amod a gyflwynwyd wrth roi caniatâd ardal gadwraeth; neu'n Methu â phennu cais am ganiatâd cyn pen 8 wythnos o'i ddilysu gan yr awdurdod cynllunio lleol.

6.19 Cyflwynir apeliadau i Weinidogion Cymru ar ffurflen cyn pen chwe mis o'r ymgeisydd yn cael hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol.

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn ategu at Bolisi Cynllunio Cymru1 a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn nodi cyd-destun y polisi a dyletswyddau awdurdodau cynllunio lleol i ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn adnabod agweddau allweddol ar arfer dda o ran eu dynodi a'u gwerthuso, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygiad polisïau lleol er rheolaeth gadarnhaol a gwelliant fel bod eu cymeriad a'u hymddangosiad yn cael eu cynnal a'u gwella. Dylai hefyd helpu awdurdodau cynllunio i ystyried Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth) i gyflawni newid sensitif o ansawdd dda.

Donald Insall Associates
Chartered Architects and Historic Building Consultants